



2024-2025



Cychwyn yn yr Ysgol



ARWEINIAD I RIENI A GOFALWYR



monmouthshire
sir fynwy

Dyddiad cyhoeddi - Gorffennaf 2023

DYDDIADAU PWYSIG SY'N GYSYLLTIEDIG Â DERBYN EICH PLENTYN I'R YSGOL

DERBYNIADAU I YSGOLION AR-LEIN

Ysgol Gynradd

Pecynnau ar gael:
6 Tachwedd 2023

Dyddiad cau ceisiadau:

9 Ionawr 2024
am 5pm

Dyddiad cynnig:

16 Ebrill 2024

Ysgol Uwchradd

Pecynnau ar gael:
25 Medi 2023

Dyddiad cau ceisiadau:

13 Tachwedd 2023
am 5pm

Dyddiad cynnig:

1 Mawrth 2024



Gofynnir i chi lenwi ffurflen gais un ai ar-lein neu ar ffurflen gais bapur sydd ar gael gan yr ysgol a'r Uned Ysgolion a Mynediad Myfyrwyr ar 01633 644508.

Cofiwch ddychwelyd eich cais gorffenedig cyn y dyddiadau cau uchod. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, bydd cais eich plentyn dan anfantais a bydd eich plentyn yn fwy tebygol o fethu â chael lle yn eich dewis cyntaf o ysgol.



I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio a'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom, darllenwch dudalennau 20 a 23 o'r llyfryn hwn.



A yw'ch plentyn yn gymwys i ddechrau Ysgol (Dosbarth Derbyn) ym Medi 2024?

Neu efallai fod gennych blentyn ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd, yn paratoi i symud i Ysgol Uwchradd yn 2024? Os felly..

Pam na fanteisiwch ar ein system gais ar-lein?



Ceisiadau Cynradd i Uwchradd

System ar gael i'w defnyddio rhwng 25 Medi 2023 hyd y dyddiad cau ar 13 Tachwedd 2023 am 5pm.

Ceisiadau Derbyn i Ysgol Gynradd (Dosbarth Derbyn)

System ar gael i'w defnyddio rhwng 6 Tachwedd 2023 hyd y dyddiad cau ar 9 Ionawr 2024 am 5pm.

Dyddiad cynnig uwchradd -
1 Mawrth 2024

Dyddiad cynnig cynradd -
16 Ebrill 2024

Beth yw manteision defnyddio'r system?

- Arbed ar gostau postio a gwarantu fod cais eich plentyn yn cyrraedd yn ddiogel
 - Cydnabyddiaeth awtomatig unwaith yr anfonwyd ac y derbyniwyd eich cais
 - Gallu i weld a newid eich cais ar-lein hyd y dyddiad cau a gyhoeddwyd
 - Gallu i fewngofnodi i'n system ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd i ganfod os bu cais eich plentyn yn llwyddiannus
- I gael mwy o wybodaeth ar Derbyniadau i Ysgolion ac i gael mynediad i'r system gais arlein, ewch i www.monmouthshire.gov.uk/applying-for-a-school-place os gwelwch yn dda



monmouthshire
sir fynwy

Cyflwyniad	4
Dyddiadau'r tymhorau 2023/24	5
Darpariaeth Addysg yn Sir Fynwy	6 - 9
Beth fydd fy mhlentyn yn ei astudio yn yr Ysgol Gynradd?	10 - 13
Beth fydd fy mhlentyn yn ei astudio yn yr Ysgol Uwchradd?	13 - 17
Trefniadau Derbyn	17
Derbyn i Addysg Blynnyddoedd Cynnar	18 - 19
Derbyn i Ysgol Fabanod/Gynradd	20
Derbyn i Ysgol Uwchradd	20
Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr	21
Derbyn i Ysgolion Awdurdodau Lleol Eraill ac Ysgolion Annibynnol	21
Gwneud cais am le mewn Ysgol Gynradd/Uwchradd	22 - 27
Dyrannu lleoedd ar gyfer Ysgolion Cynradd	
/Uwchradd a gynhelir gan Sir Fynwy	28 - 34
Ceisiadau Hwyr	35
Rhai rhesymau pam y gallem wrthod derbyn plant	37 - 39
Apeliadau	39 - 41
Canol Blwyddyn – trosglwyddo rhwng ysgolion	41 - 42
Trefniadau derbyn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr	43 - 74

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL ARALL

Cwestiynau a ofynnir yn aml mewn perthynas â chludiant	75
Cwestiynau cyffredin mewn perthynas â chludiant rhwng y cartref a'r ysgol.	79 - 82
Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol	83 - 85
Cynllun Ysgolion Iach	86
Tîm Nyrsio yr Ysgol	87 - 88
Prydau Ysgol	89 - 92
Grant Datblygu Disgyblion	92
Cadarnhau hawl am fudd-dal	93
Llywodraethwyr Ysgolion ac Iechyd a Diogelwch	95
Gwasanaeth Lles Addysg	96
Arweiniad i'n Cwsmeriaid	97
Cwynion am Ysgolion	98
Meithrinfeydd a Gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn Sir Fynwy	99-100
Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar Nas Cynhelir	101
Rhestr Addysg Gynradd yn Sir Fynwy	102 - 109
Rhestr Addysg Uwchradd yn Sir Fynwy	110 - 112
Cysylltiadau Defnyddiol	112
Termau a ddefnyddir yn y llyfryn hwn	113

Dyddiad cyhoeddi Gorffennaf 2023

ANNWYL RIAANT/OFALWR



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer eich cefnogi yn eich camau nesaf ar yr adeg bwysig yma ym mywyd eich plentyn.

Mae Sir Fynwy yn falch o'r hyn a gyflawnodd ar gyfer ei holl blant a phobl ifanc. Anelwn ddarparu cyfleoedd dysgu a phrofiadau sy'n galluogi disgyblion a myfyrwyr i gyflawni eu potensial ym mhob agwedd o'u bywyd a'r dyfodol.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc record ardderchog o gyflawni canran uchel iawn o ddewisiadau cyntaf ar gyfer lleoedd ysgol. Rydym yn falch o hyn a dymunwn barhau i weithio gyda chi a'n hysgolion i ddiwallu eich anghenion lle bynnag sydd modd. Rydym hefyd yn benderfynol i sicrhau y caiff eich teulu ei gefnogi gyda gwybodaeth glir ar yr adeg bwysig yma pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol. Cynlluniwyd y llyfryn i roi'r manylion rydych eu hangen i sicrhau fod y broses yn brofiad cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf. Bydd staff yn y Gyfarwyddiaeth yn falch i'ch helpu a'ch cefnogi mewn unrhyw ffordd.

Dylid nodi mai canllawiau cyffredinol yn unig yw'r wybodaeth a gynigir yn y llyfryn yma. Bob blwyddyn rydym yn rhagamcan y galw am leoedd mewn ysgolion. O bryd i'w gilydd gall ffactorau allanol ac annisgwyl herio cywirdeb ein rhagamcaniadau.

I'ch cynorthwyo wrth benderfynu ar eich dewisiadau mae'r llyfryn yn cynnwys manylion penodol ar ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Fynwy a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r cyfnod yma'n garreg filltir i chi a'ch plant. Rydym yma i helpu.

Will Mclean

Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc

Cynghorydd Martyn Groucott

Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc

Gweler isod ein Dyddiadau Tymhorau Ysgol a Gwyliau a gadarnhawyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25.

Yn Sir Fynwy, rydym yn sicrhau fod ymgynghoriad priodol gyda'n Hawdurdodau cyfagos yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaid a chysondeb dyddiadau, er nad yw hyn bob amser yn bosibl.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysondeb dyddiadau tymhorau yn yr holl Awdurdodau cyfagos a sut y mae hyn yn berthynol i amrywiaeth o oblygiadau i rieni, staff a phlant.

Mae'r dyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r dyddiadau hynny a gynigiwyd gan ein Hawdurdodau mwyaf cyfagos sy'n cynnwys Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a Chaerdydd.

Tymor	Tymor yn Cychwyn	Hanner Tymor yn Cychwyn	Hanner Tymor yn Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	Dydd Llun 2 Medi 2024	Dydd Llun 28 Hyd 2024	Dydd Gwener 1 Tach 2024	Dydd Gwener 20 Rhag 2024
Gwanwyn	Dydd Llun 6 Ionawr 2025	Dydd Llun 24 Chwef 2025	Dydd Gwener 28 Chwef 2025	11 Ebrill 2025
Haf	Dydd Llun 28 Ebrill 2025	Dydd Llun 26 Mai 2025	Dydd Gwener 30 Mai 2025	Dydd Llun 21 Gorff 2025
Sul y Pasg Dydd Gŵyl Fai Tymor yr Hydref 40 diwrnod a 35 diwrnod = 75 diwrnod Tymor y Gwanwyn 35 diwrnod a 30 diwrnod = 65 diwrnod Tymor yr Haf 19 diwrnod a 35 diwrnod = 54 diwrnod				

Mae Sir Fynwy yn falch i gynnig y ddarpariaeth addysgol ddilynol o fewn ei Sir:

Addysg Feithrin

Mae gan Sir Fynwy tri ar ddeg uned feithrin yn gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd. Mae'r awdurdod yn cynnal y dosbarthiadau meithrin hyn sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar ran-amser yn rhad ac am ddim (os oes lleoedd ar gael) ar gyfer disgyblion o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Mae manylion y ddarpariaeth feithrin a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol a meithrinfeydd preifat ar dudalennau 105 - 106

Addysg Gynradd (4-11)

Mae'r Cyngor Sir yn cynnig 31 sefydliadau addysgol ar lefel Gynradd:

Cynradd Cymunedol (Cymraeg)	3
Cynradd Cymunedol (Saesneg)	20
Cynradd Gwirfoddol Rheoledig yr Eglwys yng Nghymru	4
Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru	2
Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyr Eglwys Gatholig	2

Mae manylion yr Ysgolion uchod ar dudalennau 109 - 115



Addysg Gynradd Cyfrwng Cymraeg

Mae gan yr Awdurdod dair Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg. Ysgol Gymraeg Y Fenni sydd wedi'i lleoli yn Y Fenni, Ysgol Gymraeg Trefynwy sydd wedi'i lleoli yn Nhrefynwy ac Ysgol Gymraeg y Ffin yng Nghil-y-coed sydd hefyd ag uned drochi sy'n cefnogi dysgwyr sy'n hwyr i'r Gymraeg i gael addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd plant sy'n dymuno cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cludo'n ddi-dâl rhwng eu cartref a'r ysgol Gymraeg agosaf.

Ysgolion Gwirfoddol Rheoledig

Er bod yr ysgolion dydd cydaddysgol hyn yn cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol cyn belled ag y mae derbyniadau dan sylw, maent hefyd yn cynnig addysg sy'n seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd Cristnogol.

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (GG)

Ysgolion dydd gwirfoddol a gynorthwyr yw'r rhain a chânt eu cynnal ar y cyd â'r Awdurdod Lleol a chyrff gwirfoddol. Mae'r holl ysgolion a gynorthwyr yn y Sir un ai'n rhan o grwpiau enwadol Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru.

Bydd plant sy'n dymuno cael eu haddysgu mewn ysgol sy'n cynnig addysg enwadol yn cael cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn rhad ac am ddim i'w sefydliad enwadol agosaf.

Addysg Gynradd Arbennig

Mae gan Ysgol Cil-y-coed ac Ysgol Gyfun Trefynwy ganolfan Anghenion Addysgol Ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ysgol Uwchradd (11-19)

Mae tair o'r ysgolion uwchradd prif ffrwd yn Sir Fynwy yn ysgolion cyfun cymysg ac yn gwasanaethu dysgwyr 11-19 oed. Maent wedi eu lleoli'n agos at dair o'r prif drefi yn Sir Fynwy.

Ysgol Pob Oed (3-19)

Mae ysgol prif ffrwd pob oed yn y Fenni, sef ysgol gymysg a fydd yn gwasanaethu disgyblion oed cynradd (3-11), plant oed uwchradd (11-16) ym mlynnyddoedd 7-11 a myfyrwyr chweched dosbarth (16-19).

Mae pob ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac yn cynnig llawer o gyfleoedd ychwanegol drwy ystod eang o weithgareddau allgwriciwladd a gynhelir tu allan i amser gwersi yn cynnig y cyfle gorau i blant ddatblygu eu hunain fel unigolion, yn gymdeithasol ac yn academiaidd.

Mae canlyniadau TGAU a lefel AS ac A yn ysgolion Sir Fynwy yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae ysgolion uwchradd Sir Fynwy a'u darpariaeth chweched dosbarth yn parhau i ddatblygu unigolion gyda'r sgiliau i lwyddo mewn Addysg Bellach a bywyd tu hwnt i ysgol statudol.

Addysg Uwchradd Arbennig

Mae gan Ysgol Cil-y-coed, Ysgol Gyfun Trefynwy ac Ysgol 3-19 Brenin Harri VIII Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig (SNRB) i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan Ysgol Cil-y-coed ac Ysgol Gyfun Trefynwy ganolfan Adnoddau Anghenion Addysgol Ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

Mae Sir Fynwy wedi datblygu cysylltiadau agos gydag Awdurdodau Cyngor Sir Torfaen a Chyngor Sir Casnewydd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw ar gyfer gogledd y sir ac Ysgol Gwent Is Coed ar gyfer de'r sir.

Bydd plant sy'n dymuno cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i'w gosodiad cyfrwng Cymraeg agosaf.

Addysg Uwchradd Enwadol

Yn ogystal â'i ysgolion cynradd prif ffrwd, mae Sir Fynwy yn cynnig cyfle i rieni addysgu eu plant mewn gosodiad sy'n gydnaws â'u credoau a'u dealltwriaeth grefyddol.

Er nad yw Sir Fynwy yn cynnig sefydliadau addysgol uwchradd enwadol neu gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, rydym yn deall y gallech chi ddymuno parhau i addysgu eich plentyn mewn ysgol o'r fath a byddem yn cefnogi hyn.

Bydd plant sy'n dymuno cael eu haddysgu mewn ysgol sy'n cynnig addysg enwadol yn cael cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn rhad ac am ddim i'w sefydliad enwadol agosaf.

Gweler manylion ysgolion uwchradd enwadol lleol y tu allan i Sir Fynwy ar dudalennau 108 - 109.

Addysg ar ôl 16 oed

Mae Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14 - 19 Sir Fynwy yn rhwydwaith o ddarparwyr addysg sy'n cydweithio ac sy'n ymroddedig i ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed.

Mae'r rhwydwaith yn sicrhau fod anghenion unigol pobl ifanc yn cael eu diwallu ac yn darparu mwy o gyfleoedd a phrofiadau a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ehangach sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith.

Gweledigaeth

Rhoi darpariaeth addysgol i ddisgyblion Sir Fynwy sy'n eu paratoi ar gyfer cymryd rhan lawn yng nghymdeithas heddiw ac yfory.

Yn Sir Fynwy, rydym yn ffodus i gael 4 Ysgol Gyfun sy'n cynnig cyfleusterau Ôl-16 i'r rhai sy'n dymuno parhau â'u haddysg hyd at 19 oed. Mae gennym gysylltiadau cryf ag Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd i ddisgyblion barhau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cysylltiadau agos gennym hefyd â Choleg Gwent i ehangu'r opsiynau sydd ar gael i blant Sir Fynwy.

Y Cwricwlwm i Gymru

Mae addysg yng Nghymru yn newid i adlewyrchu newidiadau a heriau i'n byd yn awr ac yn y dyfodol. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau fod gan eich plentyn y wybodaeth, sgiliau, profiadau a'r hyder i wneud y gorau o fywyd.

Bu athrawon ac arbenigwyr addysg yn cydweithio i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru gyda'r nod hyn yw paratoi plant i ffynnu mewn dyfodol lle mae sgiliau digidol, y gallu i addasu a chreadigrwydd yn hollbwysig, ac sydd wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru.

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn statudol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru a bydd yn cael ei ddilyn gan blant o dair oed. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio gyda dilyniant dysgwyr yn ganolog ac mae'n darparu continwwm dysgu ar draws pob oedran.

Mae pob ysgol gynradd yn Sir Fynwy yn datblygu eu hymagweddu unigol at y Cwricwlwm i Gymru. Ar yr un pryd, cyflwynodd holl ysgolion uwchradd Sir Fynwy y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 7 yn 2022 ac o 2026, bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno i bob disgybl ysgol uwchradd.

Mae llawer o ysgolion yn Sir Fynwy yn parhau i gynllunio eu hymagwedd eu hunain at y Cwricwlwm i Gymru fel eu bod yn adlewyrchu anghenion eu disgyblion a chyd-destun yr ysgol a gwireddu'r pedwar diben sy'n sylfaen i'r cwricwlwm. Mae hyn yn golygu y bydd pob disgybl, beth bynnag fo'r ysgol, yn cael ei gefnogi i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.



Gelwir hyn yn bedwar diben y cwricwlwm

Mae chwe maes dysgu yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol. Bydd popeth y bydd eich plentyn yn ei ddysgu yn gysylltiedig â'r meysydd hyn.

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Gwerthoedd Crefydd a Moeseg)
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (yn cynnwys y Gymraeg, hyd at 16 oed ac ieithoedd modern tramor)
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r agweddau pwysig canlynol:

- hawliau dynol
- amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaedd a'r gweithle
- dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- addysg perthynas a rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol



Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno dros y tair blynedd nesaf, bydd cymwysterau allanol newydd yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r newidiadau i'r cwricwlwm. Y garfan gyntaf o ddisgyblion i sefyll yr arholiadau newydd yw'r rhai sy'n dechrau Blwyddyn 7 yn 2023.

Cysylltwch â Phennaeth yr ysgol berthnasol os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol am y ddarpariaeth addysgol yn unrhyw un o'n pedair ysgol uwchradd yn Sir Fynwy.



Sut y caiff dysgwyr eu hasesu?

Mae asesu yn rhan bwysig o ddysgu eich plentyn bob dydd. Bydd athrawon yn cefnogi eich plentyn i ddeall sut mae'n dysgu, beth mae'n ei ddysgu, beth mae'n ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo ei wneud nesaf.

Mae hyn yn bwysig i gynnwys disgyblion yn eu dysgu er mwyn iddynt allu:

- gweld ble maen nhw yn eu dysgu
- cynllunio eu camau dysgu nesaf
- sylwi ar unrhyw broblemau neu gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt

ac i helpu eu hathro fel eu bod yn gallu:

- deall yr hyn y gall pob disgybl ei wneud
- nodi'r camau nesaf mewn dysgu
- darparu cefnogaeth a her briodol i bob disgybl

Arholiadau allanol

Mae Cyngor Sir Fynwy yn dilyn y cyngor, canllawiau a'r ddeddfwriaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt mynediad ar gyfer arholiadau cyhoeddus.

Medrir cael mwy o wybodaeth ar bolisi ysgolion yn uniongyrchol gan yr ysgol unigol, ynghyd â manylion eu canlyniadau mewn arholiadau cyhoeddus. Mae gan bob disgybl hawl i gael eu cynnig ar gyfer arholiadau cyhoeddus ar gyfer y lefel briodol ar gyfer y pynciau maent yn eu hastudio.

Dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Dan ofnion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ysgolion yng Nghymru a rheoliadau a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae addysgu'r Gymraeg yn bwnc gorfodol ym mhob ysgol yn Sir Fynwy.

Mae rheoliadau yn eithrio disgyblion (o'r tu allan i Gymru) rhag astudio'r Gymraeg, sy'n cael eu derbyn i ysgol ym mlynedd 9, 10 neu 11 addysg uwchradd.



Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau am gwricwlwm ysgol?

Mae ysgolion yn penderfynnu ar eu cwricwlwm eu hunanigan roi ystyriaeth i'r Cwricwlwm i Gymru a'r maes llafur a gytunwyd yn lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mater i'r ysgol yw sicrhau fod y cwricwlwm yn cyflawni'r gofynion cyfreithiol.

Canlyniadau i Ddysgwyr


Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'i ysgolion a'r GCA i weithredu fframwaith polisi i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn parhau i wella. Yn hanesyddol, mae safonau canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, ers y pandemig yn 2020, mae'r effaith ar ganlyniadau ledled Cymru wedi bod yn sylweddol ac o ganlyniad, mae'n amhosibl cymharu â chanlyniadau presennol o fewn ysgolion, ar draws yr Awdurdod Lleol ac yn genedlaethol. Mae amcanion penodol yng Nghynllun y Gyfarwyddiaeth sy'n anelu i sicrhau safonau uchel ym mhob ysgol a lleoliad yn Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys trawsnewid darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynyddu darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a grwpiau bregus eraill.

Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ynghylch ei drefniadau derbyn a phan fo hynny'n bosibl, bydd yn ceisio trefnu fod y derbyniadau yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd ag amserlenni Awdurdodau cyfagos.

Cyn yr ymgynghoriad, dylai'r niferoedd derbyn ar gyfer yr holl ysgolion gael eu pennu a ffurfio rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae niferoedd derbyniadau'r ysgolion yn deillio o faint ffisegol yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu disgyblion.

Bob blwyddyn, pennir dyddiad ar gyfer anfon yr holl ffurflenni cais i rieni/gofalwyr. Ar yr un pryd, pennir dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a gwblhawyd. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau nad yw'r cyfnod hwn rhwng dyddiadau dosbarthu a dyddiadau cau yn llai na chwe wythnos.

Mae dyddiad y cynnig, pan hysbysir rhieni/gofalwyr ynglŷn â chanlyniadau eu ceisiadau hefyd yn cael ei gadarnhau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ar drefniadau derbyn.



Amserlen ar gyfer Derbyniadau Meithrin:

Cyfnod Derbyn	Pecyn derbyniadau ar gael i rieni	Dyddiad cau	Cyfnod dyrannu gan ALL
Meithrin (derbyniadau Ion 2024 a Medi 2024)	7 Gorffennaf 2023	15 Medi 2023 am 5pm.	16/9/2023-9/11/2023
Meithrin (derbyniad Ebrill 2024)	7 Gorffennaf 2023	15 Medi 2023 am 5pm.	10/11/2023-5/3/2024
Hysbysir rhieni erbyn:	10 Tachwedd 2023 (derbyniad Medi 2024) 10 Tachwedd 2023 (Lle Codi'n 3 cymwys am Ionawr 2024) 6 Mawrth 2024 (Lle Codi'n 3 cymwys am Ebrill 2024)		

Mae'n bosibl y bydd plant a anwyd rhwng 1 Medi 2020 a 31 Mawrth 2021 yn cael eu cynnig yn gynnar yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ymdrinnir â hyn trwy'r un broses gan ddefnyddio'r un ffurflen gais, ond ni fydd rhieni'n cael gwybod am ddechrau cynnar ym mis Ebrill tan 6 Mawrth 2024.

Caiff plant eu derbyn o'r tymor cyntaf yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Nodir yr amserlenni gofynnol ar gyfer derbyn i unedau meithrin uchod. Ar ôl derbyn yr holl geisiadau o fewn yr amserlen, gweithredir y meini prawf dilynol yn nhrefn blaenoriaeth os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)

1. Caiff plant sy'n derbyn gofal neu sydd yn flaenorol wedi derbyn gofal h.y. plant sydd yng ngofal neu a fu'n flaenorol yng ngofal awdurdod lleol flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 2-4 islaw.
2. Rhoddir blaenoriaeth i seiliau meddygol neu gymdeithasol a amlygir gan asiantaethau priodol dros y rhai'n cyflawni pwyntiau 3-4 islaw.

3. Rhoddir blaenoriaeth i blant sydd â sibling perthnasol yn mynychu'r feithrinfa a ffafrir (nid y brif ysgol) adeg derbyn flaenoriaeth dros y rhai'n cyflawni pwyny 4 islaw.
4. Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar agosatrwydd at yr ysgol a ffafrir, a fesurir yn defnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.'

Mae rhestr o unedau meithrin yr Awdurdod Lleol ar dudalennau 105. Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais i wneud cais am le meithrin awdurdod lleol. Gallwch lenwi ffurflen lein ar-gais fydd ar gael ar 7 Gorffennaf 2023 drwy fynd i'r wefan www.monmouthshire.gov.uk. Os cewch anhawster yn cael mynediad i'r cais, cysylltwch os gwelwch yn ddâ â'r Uned Derbyn ar **01633 644508** neu anfon e-bost at accesstolearning@monmouthshire.gov.uk

Wrth gyflwyno cais, gofynnir i chi ddarparu dogfennaeth briodol yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i wirio'r cyfeiriad cartref. Ar gyfer unrhyw leoedd meithrin a gynigir, efallai y bydd angen i chi gyflwyno tystysgrif geni eich plentyn wrth gofrestru i'r feithrinfa berthnasol.

Os gwrthodir lle i blentyn mewn uned feithrin, nid oes gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad gan nad yw addysg feithrin yn statudol.

Nodwch os gwelwch yn dda: Nid yw derbyn i ddosbarth meithrin yn gwarantu lle yn yr ysgol fwydo gan fod angen cais ar wahân.

Mae gan y Bartneriaeth Datblygu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyfrifoldeb am sicrhau fod lle rhan-amser ansawdd da mewn addysg gynnar ar gael ar gyfer y rhieni sy'n dewis hynny ar gyfer eu plant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Yn ogystal ag unedau meithrin yr Awdurdod Lleol, gall plant hefyd gael mynediad i addysg gynnar yn unrhyw un o'n darparwyr cymeradwy nas cynhelir, sy'n cynnwys cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd preifat ac ysgolion cyn-baratoi. Mae rhestr lawn, yn cynnwys manylion cyswllt ac oriau agor ar gael yn www.monfis.org.uk

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol gynradd a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd pan fydd ef/hi yn 5 oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau fod rhieni yn gallu gohirio derbyn eu plentyn hyd y tymor yn dilyn ei bumed pen-blwydd; fodd bynnag, yn ôl Polisi Cyngor Sir Fynwy bydd y plentyn yn parhau i ddilyn ei grŵp blwyddyn cronolegol ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.

Nid yw presenoldeb mewn meithrinfa 'fwydo' yn hepgor yr angen i wneud cais am le yn Nosbarth Derbyn yr Ysgol. Sylwer na roddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n mynd i feithrinfa 'fwydo'. Ar ôl darllen yr holl wybodaeth sydd ar gael o'r llyfryn hwn ac o ysgolion unigol gall rhieni nodi pa ysgol(ion) yr hoffent weld eu plentyn yn mynd iddi/iddynt. Cyn penderfynu gwneud cais am le mewn ysgol arbennig, bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol, gan na fyddwch o angenrheidrwydd yn gymwys i dderbyn Cymorth Cludiant. (Gweler manylion Cludiant Rhwng y Cartref a'r ysgol ar dudalennau 84 - 88). **Noder pan fyddwch yn gwneud cais am leoliad ysgol y byddwch yn cael eich asesu'n awtomatig ar gyfer cludiant ysgol ar yr un pryd. Nid oes rhaid i chi gwblhau ceisiadau ychwanegol.**

Bydd derbyniadau yn seiliedig ar y meini prawf sy'n cael eu rhestru ar dudalen 20 - 26. Os na fydd yr Awdurdod yn gallu dyrannu yn unol â hoff ddewis ysgol(ion) y rhieni byddwn yn cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf â lleoedd ar gael. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod lle yn eu hoff ddewis ysgol(ion) (cyfeiriwch at dudalen 37 - 39).

Gweler yr amserlen ar dudalen 21 wrth wneud cais am le Ysgol.

Derbyn i Ysgol Uwchradd (11-19 oed)

Attendance at a Primary or Junior school does not guarantee that a place will be made available for your child at the feeder Comprehensive school. Although every effort will be made to accommodate parental preference, where a school is over-subscribed, the over-subscription criteria will be applied (see pages 26 - 32).

Gwahoddir rhieni i fynegi eu dewis ysgol uwchradd ar gyfer eu plentyn. Cyn penderfynu gwneud cais am le mewn ysgol arbennig, mae angen i chi ystyried yn ofalus sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol, gan na fyddwch o angenrheidrwydd yn gymwys i dderbyn Cymorth Cludiant. (Gweler manylion Cludiant Rhwng y Cartref a'r ysgol ar dudalennau 84 - 88).

Noder pan fyddwch yn gwneud cais am leoliad ysgol y byddwch yn cael eich asesu'n awtomatig ar gyfer cludiant ysgol ar yr un pryd.

Nid oes rhaid i chi gwblhau ceisiadau ychwanegol.

Os dymunwch i'ch plentyn fynychu ysgol yng Nghasnewydd, rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i Awdurdod Lleol Casnewydd. Cyngorir chwi hefyd i lenwi a dychwelyd Ffurflen Gais Sir Fynwy gan nodi manylion ysgolion eraill a ddewiswyd gennych rhag ofn i chi fod yn aflwyddiannus yn eich cais i fynd i'r ysgol hon.

Yn eich cais dylech gofnodi'n eglur eich bod hefyd wedi gwneud cais am le mewn ysgol yng Nghasnewydd.

Bydd derbyniadau yn seiliedig ar y meini prawf sy'n cael eu rhestru ar dudalen 20 - 26.

Os na fydd yr Awdurdod yn gallu dyrannu yn unol â dewis ysgol(ion) y rhieni yna byddwn yn cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf â lleoedd ar gael. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod lle yn eich dewis ysgol(ion) (cyfeiriwch at dudalen pages 37 -39).

Gweler dyddiadau pwysig ar gyfer gwneud cais am le mewn ysgol yn yr amserlen ar dudalen 21.

DERBYN I YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR

Mae cyrff llywodraethol ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn Sir Fynwy yn gyfrifol am eu trefniadau derbyn a dyrannu eu hunain.

Os ydych yn gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd Gatholig Ein Harglwyddes a Sant Mihangel neu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, bydd gofyn i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol honno. Yn ogystal, fe'ch cyngorir i gwblhau cais trwy borth Dinasyddion Cyngor Sir Fynwy yn nodi dewisiadau eraill rhag ofn i chi fod yn aflwyddiannus yn eich cais i fynychu'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Ar eich cais rhaid i chi gofnodi'n glir eich bod hefyd wedi gwneud cais am le mewn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Os ydych yn gwneud cais am Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archesgob Rowan Williams neu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Magwyr, rhaid i chi gyflwyno'ch cais drwy borth Dinasyddion Cyngor Sir Fynwy. Nid oes unrhyw ofyniad i chi gyflwyno unrhyw gais ychwanegol yn uniongyrchol gyda'r ysgol. Gweler tudalennau 41 – 80 am ragor o wybodaeth am y meini prawf Derbyn ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir.

Os hoffech chi wneud cais am ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol y tu allan i Sir Fynwy, mae'n rhaid i chi anfon eich ffurflen at Awdurdod Lleol Sir Fynwy. Pan fyddwch yn dychwelyd eich ffurflen inni gan nodi fod eich dewis ysgol y tu allan i'r sir, byddwn yn cysylltu â'r awdurdod perthnasol er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â'ch cais. Mae'n ddoeth nodi ail a thrydydd dewis ar eich ffurflen rhag ofn na ellir cynnig eich dewis ysgol i chi.

Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion sydd wedi'u lleoli yng Nghasnewydd, lle bydd angen i chi wneud cais uniongyrchol i Awdurdod Lleol Casnewydd. Cyngorir chwi hefyd i wneud cais am le gan nodi y byddai'n well gennych ysgol yn Sir Fynwy rhag ofn i chi fod yn aflwyddiannus yn eich cais i fynychu ysgol annibynnol. Ar eich ffurflen gais dylech nodi'n glir eich bod yn chwilio am le mewn ysgol annibynnol.

Os ydych yn gwneud cais am ysgol annibynnol mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol honno. Cyngorir chwi hefyd i wneud cais am le gan nodi dewis ysgol yn Sir Fynwy rhag ofn i chi fod yn aflwyddiannus yn eich cais i fynd i ysgol annibynnol. Yn eich cais dylech gofnodi'n eglur eich bod yn chwilio am le mewn ysgol annibynnol. Nodwch y bydd cais a wneir i fynd i ysgol annibynnol neu ysgol y tu allan i Sir Fynwy yn cael ei drin fel un o'ch dewisiadau a bydd yn cael ei raddoli yn unol â hynny.

GWNEUD CAIS AM LE YSGOL GYNRADD/UWCHRADD

Mae'n rhaid i rieni lenwi ffurflen gais er mwyn cael lle ysgol. Mae cyfle i lenwi cais ar-lein neu gellir gwneud cais ar bapur.

Ar ôl darllen yr holl wybodaeth sydd ar gael o'r llyfryn hwn ac o ysgolion unigol, gall rhieni nodi pa ysgol yr hoffent weld eu plentyn yn mynd iddi. Gwahoddir rhieni i fynegi hyd at dri dewis (yn ôl blaenoriaeth) rhag ofn y bydd derbyniad i'r ddewis ysgol wedi cael ei wrthod.

Bydd eich dewisiadau'n cael eu hystyried yn gyfartal yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol pan fydd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael (tudalennau 26 - 32) ac ni fyddant yn seiliedig ar drefn eich rhestr o ddewisiadau. Fodd bynnag, bydd y dewis cyntaf o ysgol yn cael ei gynnig os oes modd bodloni un neu ragor o'r dewisiadau.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gynnwys mwy nag un dewis ar eich cais, oherwydd byddwch chi dan anfantais o'ch cymharu â cheisiadau eraill os na wnewch chi hynny.

Nodwch y bydd cais a wneir i fynd i ysgol annibynnol neu ysgol y tu allan i Sir Fynwy yn cael ei drin fel un o'ch dewisiadau a bydd yn cael ei raddoli yn unol â hynny.

Cyn penderfynu gwneud cais am le mewn ysgol arbennig, mae angen i chi ystyried yn ofalus sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol, gan na fyddwch o angenrheidrwydd yn gymwys i dderbyn cymorth cludiant (Gweler manylion Polisi Cludiant Ysgol y Cyngor ar dudalennau 84 - 88).

Amserlen ar gyfer Derbyniadau:

Amserlen Derbyniadau	Pecyn derbyniadau ar gael i rieni	Dyddiad cau	Rhieni'n cael eu hysbysu erbyn
Uwchradd	25 Medi 2023	13 Tachwedd 2023 am 5pm	1 Mawrth 2024
Cynradd	6 Tachwedd 2023	9 Ionawr 2023 am 5pm	6 Ebrill 2024

- Mae'r tîm Derbyn yn cymryd agwedd ragweithiol er mwyn sicrhau bod llythyrau cais yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i rieni, gan roi gwybod lle bo'n bosibl pan fydd y rownd dderbyn yn agor. Anogir rhieni i ddefnyddio'r system ymgeisio ar-lein. Mae rheoliadau diogelu data yn ein rhwystro rhag cael mynediad i'r holl wybodaeth am ddisgyblion, ac felly byddem yn eich annog i gysylltu â ni os na fyddwch yn derbyn pecyn cais o fewn y cyfnodau a roddir yn yr amserlen uchod. I'ch atgoffa, cyfrifoldeb y rhieni yw gwneud cais am le ac i roi gwybod inni os bydd newid mewn cyfeiriad.

- Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu a fydd yn parhau i fod heb eu cwblhau ar y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr (gweler tud 33). Mae'n hanfodol eich bod yn anfon eich ffurflen cyn y dyddiad cau er mwyn cynyddu'r posibilrwydd o gael lle yn yr ysgol sy'n ddewis cyntaf i chi.
- Dylid gwneud unrhyw newid o ran dewis drwy anfon llythyr i'r Uned Ysgolion a Mynediad Myfyrwyr. Bydd unrhyw ddewis a fydd yn cael ei newid ar ôl y dyddiad cau yn golygu y bydd y cais yn cael ei ystyried fel cais hwyr. (Gweler tudalen 33)
- Mae'n rhaid i chi gynnwys eich rhif cyfeirnod Treth Gyngor ar y ffurflen gais. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Adran y Dreth Gyngor i wirio eich cyfeiriad.
- Ar gyfer unrhyw geisiadau papur, dychwelwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau (gan gynnwys y dystiolaeth angenrheidiol) i'r Uned Mynediad Ysgolion a Myfyrwyr. Cyfarwyddiaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.

Sicrhewch fod y ffurflen yn ein cyrraedd ni erbyn y dyddiad cau perthnasol. Os na fydd yn cyrraedd mewn pryd, efallai na chewch chi le yn eich dewis(iadau) cyntaf o ysgol.

Bydd y cynnig o le ysgol yn seiliedig ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn y cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais ar y dyddiad cynnig a gyhoeddir. Fodd bynnag, os yw rhiant/gofalwr yn gwybod cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddir eu bod yn annhebyg o barhau i fyw yn y cyfeiriad a gaiff ei nodi ar y cais, mae'n rhaid iddynt ein hysbysu, a chaiff manylion eu cais eu newid.

Gellid diddymu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir yn ddiweddarach na ddigwyddodd hynny. Lle mae rhieni yn ein hysbysu adeg gwneud cais eu bod yn symud tŷ ac yn rhoi tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol i ddilysu'r symudiad hwn, byddai unrhyw gynnig lle ysgol ar y sail hwnnw dan yr amgylchiadau fod yr ymgeisydd yn breswyl yn y cyfeiriad newydd adeg y bydd y plant dan sylw yn dechrau'r ysgol. Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir yn ddiweddarach na ddigwyddodd hynny.

Derbyn lle ysgol

Pan dderbynnir cynnig lle ysgol, mae angen i rieni gadarnhau mewn ysgrifen eu bod yn derbyn y lle ysgol yma o fewn 14 diwrnod o hysbysiad o gynnig y lle ysgol. Gallai methiant i wneud hynny olygu y caiff y cynnig o le ysgol ei ddiddymu.

Symud tŷ

Bydd angen i rieni sydd yn y broses o symud tŷ hysbysu'r Awdurdod Lleol adeg gwneud cais am eu bwriad i symud ac i gyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad yma gael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o'r cyfnewid contractau (ar gyfer prynu) neu drefniant tenantiaeth hirdymor (ar gyfer trefniadau rhentu), y mae'n rhaid eu derbyn cyn y dyddiad cau a gyhoeddir er mwyn cael eu hystyried yn gais 'mewn pryd'. Byddai methiant i hysbysu'r Awdurdod Lleol am symud i gyfeiriad newydd cyn y dyddiad cau a gyhoeddir yn arwain at i'r cais gael ei drin fel 'cais hwyr'.

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd yn y broses o symud ond na all ddilysu y symudiad cyn y dyddiad cau sicrhau y cyflwynir eu cais wedi ei gwblhau cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, a bod y cais yn rhoi gwybodaeth ar y bwriad i symud. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydlynu gyda rhieni/gofalwyr am y symud arfaethedig er mwyn cael cadarnhad y sicrhawyd preswyliaeth yn yr eiddo newydd. Fodd bynnag, bydd angen i rieni roi tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol sy'n sicrhau eu newid cyfeiriad dim mwy na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu.

Pan fo'r Awdurdod Lleol yn derbyn tystiolaeth i ddilysu symud eiddo ac yn defnyddio'r eiddo newydd ar gyfer dibenion dyrannu, caiff y cynnig o le ysgol ei seilio ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn yr eiddo adeg pan fydd y plentyn yn mynd i'r ysgol. Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir nad yw'r ymgeisydd yn breswyl yn yr eiddo adeg pan fydd y plentyn yn mynd i'r ysgol.

Gellid dileu unrhyw gynnig am le ysgol fel canlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r uchod.

Newid annisgwyl mewn cyfeiriad

Pe byddai rhiant a gyflwynodd gais cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn ein hysbysu am newid annisgwyl mewn cyfeiriad a ddiweddodd ers cyflwyno eu cais, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ar sail ddewisol yr amgylchiadau dros y newid annisgwyl mewn cyfeiriad cyn penderfynu os yw'r cais yn un hwyr.

Yn anffodus, dim ond os rhoddir hysbysiad a thystiolaeth o'r newid cyfeiriad ddim mwy na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd y gall y cyfeiriad newydd gael ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu.

Cyfrifoldeb rhiant yw hysbysu'r Awdurdod Lleol am newid cyfeiriad sy'n digwydd o fewn y broses cais. Gallai methiant i wneud hynny arwain at ddileu unrhyw gynnig o le ysgol.

Rhannu preswyliaeth

Os caiff preswyliaeth plentyn ei rannu rhwng dau riant, defnyddir y cyfeiriad lle mae'r plentyn dan sylw yn byw am fwyaf yr wythnos ysgol ar gyfer dibenion dyrannu. Dyma'r cyfeiriad y dylid ei ddatgan ar y cais.

Fodd bynnag, os yw'r breswyliaeth yn gyfartal gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol, defnyddir y cyfeiriad lle telir y budd-dal plant ar gyfer dibenion dyrannu.

Dalgylchoedd ysgolion

Er bod byw o fewn dalgylch ar gyfer ysgol yn ffurfio elfen o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, nid yw'n gwarantu lle ar y sail honno. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwrthod derbyn mwy na rhif derbyn yr ysgol os nad yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r eithriadau a ganiateir a restrir ar dudalen 26.

Derbyn plant genedigaethau lluosog (e.e. gefeilliaid neu dribledi)

Wrth weithredu'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd yn gofyn am dderbyn i flwyddyn arferol mynediad [Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7] a bod y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth lluosog, yna bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y sibling(iaid) eraill.

Lle derbynnir ceisiadau genedigaeth luosog ar gyfer grwpiau blwyddyn heblaw'r flwyddyn mynediad arferol, lle mai dim ond un lle sydd ar ôl yn y grŵp blwyddyn perthnasol cyn cyrraedd y nifer derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried pob achos yn unigol cyn penderfynu os eir yn uwch na'r nifer derbyn. Bydd angen rhoi sylw neilltuoel i gapasiti'r ysgol a'r tebygrwydd o amharu ar addysg effeithlon a defnydd effeithiol adnoddau yn yr ysgol a ffafir.

Plant Aelodau o Luoedd Arfog y DU

Mae plant Aelodau o Luoedd Arfog y DU yn cael eu symud yn aml o fewn y DU a thramor yn aml ar fyr rybudd. O ganlyniad i'r ffaith nad yw Aelodau o'r Lluoedd Arfog y DU yn medru cymryd rhan yn y broses dderbyn arferol, bydd y Cyngor yn ystyried bod y meini prawf preswyllo a fodlonwyd (a dyfarnu blaenoriaeth dalgylch) os caiff y canlynol ei gyflwyno gyda'r cais, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yn Sir Fynwy ar y dyddiad perthnasol:

- Prawf swyddogol o bostio h.y. hysbysiad postio;
- Copi o Gerdyn Adnabod y Gwasanaeth;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd.

Lle mai'r ysgol ddewisol hefyd yw'r ysgol ddalgylch ond bod y nifer derbyn eisoes wedi'i fodloni yn y grŵp blwyddyn perthnasol, bydd y Cyngor yn mynd dros y nifer derbyn.

Gweision y Goron

Mae plant Gweision y Goron y DU (gan gynnwys diplomyddion) yn cael eu symud yn aml ac os ydynt yn symud i Sir Fynwy, penderfynir eu bod yn bodloni'r meini prawf preswyllo ar gyfer yr ysgol ddalgylch berthnasol os daw llythyr swyddogol gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad gyda'r cais sy'n datgan:

- Dyddiad dychwelyd pendant;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd;
- Cadarnhad o statws Gwas y Goron.

Mynediad gohiriedig i Ysgol Gynradd

Bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn plentyn i ysgol gynradd/babanod a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd pan fydd yn troi'n 5 oed.

Fodd bynnag, mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau y gall rhieni ohirio derbyn eu plentyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed. Mae'n oblygiad ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau y cedwir unrhyw gynnig o le ysgol ar gyfer rhieni sy'n dymuno i fynediad eu plentyn i ddosbarth Derbyn gael ei ohirio tan yn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd.

Fodd bynnag, ni all rhiant ohirio mynediad tu hwnt i'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais amdano.

Genedigaethau Tymor yr Haf

Yn achos plentyn a gaiff ei eni yn ystod tymor yr haf, nid oes gofyniad cyfreithiol eu bod yn mynychu'r ysgol tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed/y mis Medi ar ôl y flwyddyn mynediad arferol ar gyfer plentyn dosbarth Derbyn. Fodd bynnag mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau fod plant yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol ac felly byddai'r plentyn yn cael ei dderbyn i flwyddyn 1 ac nid y dosbarth Derbyn.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu derbyn genedigaeth tymor yr haf i grŵp blwyddyn sydd tu allan i flwyddyn arferol mynediad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen sylfaen tystiolaeth addas (e.e. adroddiad gan Seicolegydd Addysgol) sy'n awgrymu na all grŵp blwyddyn cronolegol ddiwallu anghenion y plentyn dan sylw yn iawn.

Dyrannu lleoedd ar gyfer Ysgolion Cynradd/Uwchradd a gynhelir gan Awdurdod Lleol

Er mwyn gweld yr amserlenni y bydd y Tîm Derbyniadau yn eu dilyn wrth dyrannu lleoedd cyfeiriwch at yr amserlen a nodir ar dudalen 21.

Meini Prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael

Pan fo nifer yr ymgeiswyr a dderbynnir ar gyfer dewis ysgol yn llai neu'n gyfartal â'r nifer o leoedd ar gael, caiff pob plentyn ei dderbyn a thybio y gall yr ysgol dan sylw ddiwallu anghenion yr holl ymgeiswyr.

Fodd bynnag, pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd mewn ysgol, caiff y nifer derbyn ei dorri a gweithredir y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i ddewis pa blant gaiff gynnig lleoedd yn yr ysgolion dan sylw. Ar gyfer plant gyda Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n rhaid i'r Awdurdod dderbyn y plentyn dan sylw i'r ysgol a nodir ar eu datganiad.

Wrth weithredu'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu i bwy y dylid cynnig lleoedd, caiff holl ddewisiadau rhieni eu hystyried yn gyfartal a'u dyrannu yn unol â'r meini prawf islaw.

Cynigir yr ysgol dewis uchaf, fel y caiff ei rhestru ar y ffurflen gais, os gellir cynnig un neu fwy o ddewisiadau.

Wrth ystyried gweddill y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf dilynol i benderfynu i ba blant y cynigir lleoedd:

Meini prawf ar gyfer pan fo mwy o alw nag o leoedd ar gael – Ysgolion Cynradd Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)

1. Bydd plant sy'n derbyn gofal neu oedd yn flaenorol yn derbyn gofal h.y. plant sydd yng ngofal neu a oedd yn flaenorol yng ngofal awdurdod lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 2-8 islaw.
2. Bydd plant gydag amgylchiadau meddygol eithriadol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 3-8 islaw.
3. Bydd plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a ffafrir sydd â siblingiaid perthnasol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 4-8 islaw.
4. Bydd plant sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafrir ond gyda siblingiaid perthnasol fydd yn parhau i fynychu'r ysgol a ffafrir oherwydd iddynt fod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn eu hysgol dalgylch yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 5-8 islaw.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond sydd â brodyr a chwiorydd presennol perthnasol wedi'u cofrestru yn yr ysgol ddewisol erbyn mis Medi 2019, a lle bydd y brawd neu chwaer hŷn yn parhau i fod ar y gofrestr pan fydd yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cwrdd â'r pwyntiau 6 -8 isod.
6. Bydd plant sy'n preswyllo tu fewn i ddalgylch yr ysgol a ffafrir yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 7-8 islaw.
7. Plant sy'n byw tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffafrir, gyda sibling perthnasol (a fydd yn mynychu'r ysgol a ffafrir adeg derbyn) nad ydynt yn cyflawni pwyntiau 4 a 5 uchod.
8. Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar agosatrwydd at y dewis ysgol, a fesurir yn defnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

To clarify, any over-subscription in the above criteria will result in the final determination of the allocation of a place being made on distance. So for example, if there are more applications than places available after applying point 6 above, places will be allocated to those children whose home address is determined to be closer to the preferred school.

Nodiadau Esboniadol

Safle Blaenoriaeth 4 - Dim ond os bu rhiant yn aflwyddiannus yn cael lle ar gyfer eu plentyn yn eu hysgol dalgylch ac wedyn yn mynychu ysgol arall gyda sibling iau yn gymwys i fynychu y byddai'r maen prawf hwn yn weithredol.

Safle Blaenoriaeth 5 – Dim ond ar gyfer siblingiaid presennol y byddai'r maen prawf hwn yn berthnasol, sydd ar gofrestr yr ysgol a ffafrir erbyn mis Medi 2019, gyda siblingiaid iau yn gymwys i ddechrau Ysgol Gynradd (Dosbarth Derbyn) ym mis Medi 2021, mis Medi 2022, mis Medi 2023 a mis Medi 2024.

Meini prawf os oes mwy o alw nag o leoedd ar gael – Ysgolion Uwchradd Cymunedol

Plant sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Unigol (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)

1. Bydd plant sy'n derbyn gofal neu oedd yn flaenorol yn derbyn gofal h.y. plant sydd yng ngofal neu a fu'n flaenorol yng ngofal awdurdod lleoli yn cael blaenoriaeth dros y rhai yn cyflawni pwyntiau 2-9 islaw.
2. Bydd plant gydag amgylchiadau meddygol eithriadol yn cael blaenoriaeth dros y rhai'n cyflawni pwyntiau 3-9 islaw.
3. Bydd plant sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffafrir sydd â siblingiaid perthnasol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 4-9 islaw.
4. Bydd plant sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafrir ond gyda siblingiaid perthnasol fydd yn parhau i fynychu'r ysgol a ffafrir oherwydd iddynt fod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn eu hysgol dalgylch yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 5-9 islaw.
5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond sydd â brodyr a chwiorydd presennol perthnasol wedi'u cofrestru yn yr ysgol ddewisol erbyn mis Medi 2019, a lle bydd y brawd neu chwaer hyn yn parhau i fod ar y gofrestr pan fydd yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cwrdd â'r pwyntiau 6 -8 isod.
6. Bydd plant sy'n byw tu mewn i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffafrir yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 7-9 islaw.
7. Bydd plant sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafrir, gyda sibling perthnasol (fydd yn mynychu'r ysgol a ffafrir adeg derbyn) nad yw'n cyflawni pwyntiau meini prawf 4 a 5 uchod yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 8-9.

8. Bydd plant sydd ar hyn o bryd ar gofrestr ysgol gynradd a ddynodir yn ysgol fwydo ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffafrir yn cael blaenoriaeth dros y rhai'n cyflawni pwynt 9 islaw.
9. Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fwy o alw nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, caiff blaenoriaeth ei seilio ar agosatrwydd at yr ysgol a ffafrir, a fesurir yn defnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

I egluro, os bydd mwy o alw nag o leoedd ar gael ar ôl defnyddio'r meini prawf uchod, caiff y penderfyniad terfynol ar ddyrannu lle ei wneud ar sail pellter. Felly er enghraifft, os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ar ôl gweithredu pwynt 6 uchod, caiff lleoedd eu dyrannu i'r plant hynny y penderfynir fod eu cyfeiriad cartref yn nes at yr ysgol a ffafrir.

Nodiadau Esboniadol

Safle Blaenoriaeth 4 - Dim ond os bu rhiant yn aflwyddiannus yn cael lle ar gyfer eu plentyn yn eu hysgol dalgylch ac wedyn yn mynychu ysgol arall gyda sibling iau yn gymwys i fynychu y byddai'r maen prawf hwn yn weithredol.

Safle Blaenoriaeth 5 – Dim ond ar gyfer siblingiaid presennol y byddai'r maen prawf hwn yn berthnasol, sydd ar gofrestr yr ysgol a ffafrir erbyn mis Medi 2019, gyda siblingiaid iau yn gymwys i drosglwyddo o ysgol Gynradd i ysgol Uwchradd ym mis Medi 2020, mis Medi 2021, mis Medi 2022, mis Medi 2023 a mis Medi 2024.

Safle Blaenoriaeth 8 – Byddai'r maen prawf hwn yn berthnasol o fewn meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael mewn ysgolion uwchradd ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd o ddewis.

Caiff ysgolion bwydo eu penderfynu fel bod yr ysgolion hynny sydd â threfniadau pontio ffurfiol gydag ysgol uwchradd.

Nodiadau pwysig ar gyfer ceisiadau Cynradd ac Uwchradd:

1. Bydd yr Awdurdod Lleol angen tystiolaeth addas i wirio fod eich plentyn yn flaenorol yn blentyn oedd yn derbyn gofal (e.e. copi o'r cadarnhad mabwysiadu er mwyn i'r maen prawf hwn gael ei weithredu.
2. Mae'n rhaid i geisiadau sy'n dymuno i'w cais gael blaenoriaeth oherwydd anghenion meddygol plentyn gael eu cefnogi gan adroddiad ymgynghorydd meddygol (a geir gan y rhieni adeg gwneud y cais) yn amlinellu pam mai'r dewis ysgol yw'r unig opsiwn hyfyw o gymharu gydag ysgolion eraill y gallai'r Awdurdod eu cynnig.
3. Caiff brodyr a chwiorydd, p'un ai'n hanner, llawn, llys neu faeth eu hystyried yn berthnasol pan fyddant yn byw ar yr un aelwyd a lle byddant yn dal i fod ar y gofrestr yn yr ysgol pan mae'r ymgeisydd yn gymwys i fynychu.
4. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried mai cyfeiriad cartref yr ysgol fydd y man lle mae'r plentyn yn byw am fwyafrif yr wythnos ysgol. Os yw preswyliaeth y plentyn wedi ei rannu rhwng dau riant, caiff y cyfeiriad lle mae'r plentyn dan sylw yn byw am fwyafrif yr wythnos ysgol ei ddefnyddio ar gyfer dibenion dyrannu. Dyma'r cyfeiriad y dylid ei ddatgan ar y cais.

Fodd bynnag, os yw'r breswyliaeth gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol yn gyfartal, defnyddir y cyfeiriad lle telir y budd-dal plant ar gyfer dibenion dyrannu.

Er bod byw o fewn y dalgylch ar gyfer ysgol yn ffurfio elfen o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail yma. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwrthod derbyn mwy na nifer derbyn yr Ysgol os nad yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r eithriadau a ganiateir a restrir ar dudalennau 35-36.

5. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS) i gyfrif pellter o'r cartref i'r ysgol. Y meddalwedd GIS a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer y dibenion hyn fydd Routefinder a Mapinfo.

Caiff y llwybr cerdded diogel byrraf ei gyfrif yn defnyddio llwybrau swyddogol sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau priffyrdd. Caiff man dechrau y llwybr a benderfynwyd fel bod y pwynt rhwydwaith agosaf i brif fynedfa yr eiddo. Caiff prif fynedfa'r cyfeiriad cartref ei benderfynu gan yr Awdurdod Lleol i fod lle mae'r eiddo'n derbyn post. Caiff pwynt gorffen y llwybr ei benderfynu fel bod y glwyd agored swyddogol agosaf a ddefnyddir gan yr ysgol a ffafrir.

Caiff manylion cyfeiriad ymgeisydd eu penderfynu yn defnyddio'r Local Land and Property Gazetteer (LLPG) a chronfa ddata cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans.

Lle na fedrir penderfynu ar lwybr cerdded diogel ar gyfer ymgeisydd, caiff y llwybr gyrru byrraf ei ddefnyddio ar gyfer dibenion dyrannu.



CEISIADAU HWYR

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd neu geisiadau sy'n parhau i fod yn anghyflawn ar y dyddiad cau, yn cael eu trin yn unol â'r trefniadau ceisiadau hwyr.

Bydd newid blaenoriaeth a dderbynnir gan yr Awdurdod Lleol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn cael ei drin fel cais hwyr.

Yn achos ceisiadau lle cafwyd newid mewn amgylchiadau, a effeithiodd ar statws y cais gyda golwg ar y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael (h.y. newid cyfeiriad), gallai'r cais hefyd gael yn cael ei drin felcais hwyr os cafodd yr Awdurdod ei hysbysu ynglŷn â'r newidiadau hyn ar ôl y dyddiad cau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ar sail ddisgresiwn amgylchiadau newid cyfeiriad annisgwyl cyn penderfynu trin y cais fel un hwyr.

Yn anffodus, dim ond os ceir hysbysiad o'r newid cyfeiriad ddim llai na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd y gellir defnyddio disgresiwn er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion dyrannu.



Gofynnir i chi nodi y gall ceisiadau a gaiff eu pennu yn rhai hwyr gynyddu'r posibilrwydd na chewch gynnig le yn eich dewis ysgol(ion). Bydd hyn oherwydd y caiff pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau flaenoriaeth dros y rhai a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

Amserlen prosesu ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau (ceisiadau hwyr)

	Mis derbyn y Cais	Dyddiad y Cynnig
Cymwys i ysgolion Uwchradd yn unig	14 Tachwedd 2023 - 9 Ionawr 2024	29 Mawrth 2024
Cymwys i ysgolion Cynradd a'r Uwchradd	10 Ionawr 2024 - 31 Ionawr 2024 Chwefror 2024 Mawrth 2024 Ebrill 2024 Mai 2024 Mehefin 2024 Gorffennaf 2024 1 i 9 Awst 2024 12 i 16 Awst 2024 19 Awst 2024 ymlaen	10 Mai 2024 (Cynradd) 12 Ebrill 2024 (Uwchradd) 24 Mai 2024 (Cynradd) 26 Ebrill 2024 (Uwchradd) 31 Mai 2024 (Cynradd) 31 Mai 2024 (Uwchradd) 7 Mehefin 2024 21 Mehefin 2024 5 Gorffennaf 2024 9 Awst 2024 16 Awst 2024 23 Awst 2024 O fewn 1 wythnos

Derbyn i grwpiau blwyddyn eraill

Pan dderbynnir ceisiadau ar gyfer derbyniadau i grwpiau blwyddyn gwahanol i'r flwyddyn fynediad arferol, ni fydd y rhain yn cael eu hystyried tan ddechrau ail hanner tymor yr haf (ar ôl gwyliau'r Sulgwyn). Unwaith eto, bydd y rhain yn cael eu gosod mewn sypiau ac yn cael eu prosesu yn unol â'r meini prawf pan fydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, yn fisol. Ni fydd rhieni'n cael gwybod am benderfyniad yn gynharach na 4 wythnos cyn diwedd tymor yr haf.

Caiff y ceisiadau hyn eu casglu ar sail fisol a chânt eu prosesu yn ôl y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael pe byddai nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Fodd bynnag, dylid nodi y rhoddir blaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n edrych am le yn ystod y tymor presennol yn hytrach nag yn y flwyddyn academaidd newydd.

RHAI RHESYMAU PAM Y GALLEM WRTHOD DERBYN

Mae Côt Ymarfer Derbyniadau i Ysgolion (Gorffennaf 2013) yn rhoi'r hawl i rieni fynegi y byddai'n well ganddynt fod eu plentyn yn cael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir gan gronfeydd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae rhesymau pam y byddai'n rhaid gwrthod y dewis hwnnw, gan fod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol roi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:

- Y fenter maint dosbarthiadau babanod sydd wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw blentyn 5, 6, a 7 oed mewn dosbarth o fwy na 30 o ddisgyblion ar gyfer pob un athro/athrawes gymwys. Mae'r cyfyngiad maint dosbarth babanod statudol o 30 o ddisgyblion yn gymwys i ddosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i sicrhau fod dosbarthiadau CA2 yn parhau ar 30 neu lai yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Cyfyngiadau ffisegol yr ysgol ac adeiladau'r safle
- Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn anfanteisiol wrth ddarparu addysg effeithlon ac/neu i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

Eithriadau

Yn ôl rheoliadau Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfyngu meintiau dosbarthiadau babanod i 30 o ddisgyblion ar y mwyaf.

Ceir eithriadau fodd bynnag i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion eithriedig") a allai ganiatáu i ddosbarth fynd dros y cyfyngiad dosbarth o 30 disgybl.

Y disgyblion hyn yw:

- i. Plant y mae eu datganiadau AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol;
- ii. Plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyn arferol;
- iii. Plant y gwrthodwyd eu derbyn i ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt ar ôl hynny y tu allan i rownd dderbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apeliadau, neu gan fod y sawl oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod fod camgymeriad wedi ei wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol;

- iv. Plant nad ydynt yn gallu cael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod yn symud i'r ardal y tu allan i rownd dderbyn arferol;
- v. Plant y dymunir cael addysg ar eu cyfer mewn ysgol lle siaredir Cymraeg pan fydd yr ysgol dan sylw yr unig ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartref;
- vi. Plant y dymunir cael addysg ar eu cyfer mewn ysgol â chymeriad crefyddol penodol pan fydd yr ysgol dan sylw yr unig ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartref;
- vii. Disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol mewn grŵp oedran lle mae plant yn cael eu derbyn yn arferol ac
 - sy'n cael eu derbyn ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol; ac
 - onid yw'r ysgol wedi cyrraedd ei nifer derbyn eto ond eisoes wedi trefnu ei dosbarthiadau; ac
 - os byddai derbyn y plentyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd cam perthnasol;
- viii. Plant staff y lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol.
- ix. Plant y mae efaill neu frawd neu chwaer o enedigaeth luosog wedi eu derbyn fel disgyblion heb fod yn eithriedig, yn ddisgybl/disgyblion olaf gyda lle wedi'i glustnodi cyn cyrraedd y nifer o dderbyniadau.
- x. Plant sy'n ddisgyblion ar gofrestr ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; ac
- xi. Plant Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cael eu haddysgu fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n derbyn rhai o'u gwersi mewn dosbarth sydd heb fod yn ddosbarth addysg arbennig.

Bydd y disgyblion eithredig yn parhau felly, ar ôl iddynt gael eu derbyn, am weddill eu hamser yn y dosbarth babanod neu hyd nes i niferoedd y dosbarth gwmpo'n ôl ac y gellir eu trefnu i gydymffurfio â therfyn maint y dosbarth babanod.

Rhestrau Aros

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a fu'n aflwyddiannus wrth gael lle yn eu dewis ysgol(ion), caiff rhestri aros eu cadw hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd y gwnaed cais ar ei chyfer. Wedi'r cyfnod hwn, bydd y rhestrau aros presennol yn dod i ben a bydd angen gwneud cais o'r newydd. Caiff manylion y plentyn eu hychwanegu'n awtomatig ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol(ion) a ffafirir adeg gwrthod.

Caiff rhestri aros eu blaenoriaethu yn ôl y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ac ni fyddant yn seiliedig ar y dyddiad y cyflwynwyd y cais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r ysgol a'r Uned Derbyn Myfyrwyr am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ac felly le eu plentyn ar y rhestr aros. Byddai newid cyfeiriad yn enghraifft o hyn.

Bydd yr Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr o fewn 7 diwrnod gwaith o'r lle'n dod ar gael, os yw eu plentyn yn gymwys am ystyriaeth o'r lle. Rhoddir 7 diwrnod i'r rhiant i dderbyn neu wrthod y cynnig yn ffurfiol mewn ysgrifen. Ar ôl y cyfnod hwnnw, caiff enw'r plentyn ei dynnu o'r rhestr aros a chynigir y lle i'r plentyn nesaf ar y rhestr aros, gan y bydd yr Awdurdod Lleol yn tybio nad oes angen y lle mwyach.

APELIADAU

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn Sir Fynwy yn cael lle yn yr ysgol oedd yn ddewis cyntaf eu rhieni. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl dyrannu lle yn yr ysgol a ddewiswyd, bydd lle yn cael ei gynnig mewn ysgol arall. Gall y rhieni apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod derbyn.

Caiff yr apêl ei benderfynu gan apêl annibynnol a sefydlir yn unol gyda'r côd Apêl Derbyn Ysgolion 2013. Mae'n rhaid i'r panel gynnwys tri i bump aelod a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol o'r categorïau dilynol:

- Pobl sy'n gymwys i fod yn aelodau lleyg (pobl heb brofiad personol mewn rheoli ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol, gan anwybyddu profiad fel llywodraethwr neu mewn unrhyw swydd wirfoddol arall).
- Pobl sydd â phrofiad mewn addysg; sy'n gyfarwydd gydag amodau addysgol yn ardal yr Awdurdod Lleol neu sy'n rhieni plant a gofrestrodd mewn ysgol (heblaw'r ysgol lle gwneir yr apêl).
- Bydd y paneli Apêl Annibynnol yn gorfod ystyried pob achos yn unigol yn ôl ei deilyngdod ac ni allant eu cyfyngu eu hunain, ymlaen llaw, i dderbyn unrhyw nifer penodol o ddisgyblion.

Dylai ystyriaeth gan banel apeliadau gynnwys dau gam pendant:

1. Y Cam Ffeithiol, lle mae'r panel yn penderfynu ar sail ffeithiau a oedd rheswm cyfreithlon dros wrthod derbyn y disgybl; os nad oedd rheswm, rhaid derbyn y plentyn; os oedd rheswm, rhaid i'r pwyllgor symud ymlaen at:
2. Y Cam Pwyso a Mesur, lle mae'r panel yn barnu ac yn pwyso a mesur i ba raddau y byddai derbyn y plentyn yn niweidiol i addysg effeithlon, a chryfder achos y rhieni, er mwyn dod i benderfyniad sy'n rhwymol ar yr awdurdod derbyn.

Bydd penderfyniad y panel apeliadau yn rhwymo'r Awdurdod Lleol.

Nid yw'r penderfyniad i apelio yn rhwystro'r rhiant rhag derbyn lle mewn ysgol arall tra bo'r gwrandawriad yn cael ei alw gan y bydd y panel yn pennu'r apêl ar sail cais.

Os yw eich ysgol agosaf nesaf sydd ar gael wedi ei lleoli fwy na 1.5 milltir (Cynradd) neu 2 filltir (Uwchradd) oddi wrth eich cartref, byddech yn gymwys i wneud cais am Gludiant Di-dâl Rhwng y Cartref a'r ysgol.

Gweler mwy o wybodaeth ar hawliau cludiant ar dudalennau pages 84 - 88.

Cynullir pob gwrandawriad Apêl gan Glerc Panel Apêl Derbyniadau Ysgol fydd yn ymdrechu i drefnu'r holl wrandawiadau apêl yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Apeliadau yn achos Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Os hoffech apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle i'ch plentyn i fynychu ysgol gwirfoddol a gynorthwyr yn Sir Fynwy, mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl i'r corff llywodraethu (sydd eu hawdurdod derbyn eu hunain) fydd yn ystyried eich apêl yn unol â gofynion deddfwriaethol.

TROSGLWYDDO O FEWN Y FLWYDDYN RHWNG YSGOLION

Mae trosglwyddo o fewn y flwyddyn yn cyfeirio at geisiadau gan rieni/gofalwyr i drosglwyddo eu plant rhwng ysgolion tu allan i'r cylch derbyn arferol. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ceisiadau nes bydd y dyddiad dechrau a geisiwyd fwy na thymor ymlaen llaw. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu trin yn ôl y dyddiad y cawsant eu derbyn.

Pan fydd mwy o geisiadau yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod nag o leoedd sydd ar gael, bydd meini prawf yr Awdurdod yn cael eu gweithredu i benderfynu pwy sy'n derbyn y lle/lleoedd.

Os byddwch yn penderfynu symud eich plentyn yn ystod y flwyddyn academiaidd mae angen i chi wneud cais am le yn eich dewis ysgol. Mae copi o ffurflenderbyn trosglwyddo o fewn yr ysgol ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/education neu gan Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr ar **01633 644508**.

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer derbyn plant ar ddechrau'r Flwyddyn Academiaidd. Dylid danfon eich ffurflen gais at yr Uned Ysgol a Derbyn Myfyrwyr. Mynediad i Ddysgu, Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Fynwy, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP1 1GA

Fel arfer bydd ceisiadau yn cael eu prosesu ymhen 7 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn. Mewn rhai amgylchiadau lle nodwyd fod gan y plentyn anghenion penodol efallai na fydd yn bosibl prosesu'r cais o fewn yr amser hwn. Bydd y rhiant/gofalwydd yn cael ei hysbysebu ynglŷn â hyn.

Fel rhan o'r broses ystyried, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu ag ysgol bresennol y plentyn i gael gwybodaeth i'w rhannu gyda'r ysgol sy'n derbyn. Mae hyn i sicrhau fod yr ysgol a ffafirir mewn sefyllfa i gefnogi pontio priodol rhwng ysgolion.

Pan wneir cais am le mewn ysgol o ganlyniad i symud i fyw i'r sir mae angen i'r rhiant anfon prawf o gyfeiriad y cartref yn y sir ar ffurf Cyfnewid Contractau neu Gytundeb Tenantiaeth hirdymor. Ni fydd y cais yn cael ei brosesu hyd oni dderbynnir y dystiolaeth hon. Pwrpas hyn yw sicrhau nad yw rhieni/gofalwyr yn ymgeisio yn rhy fuan cyn symud a thrwy wneud hyn amddifadu rhywun sydd angen lle ynghynt.

Unwaith y dyfarnwyd lle mewn ysgol, caiff ei gadw'n agored am gyfnod o 1 tymor o ddyddiad y derbyniad a awdurdodwyd, ac ar ôl hynny gall y lle gael ei ddiddymu os nad yw'r plentyn wedi cymryd y lle yn ystod y cyfnod hwn. Unwaith y cynigiwyd lle ysgol, bydd gan ysgolion 7 diwrnod gwaith i drefnu ar gyfer ymrestru'r plentyn dan sylw lle mae angen dechrau ar unwaith.

Os na allwn gynnig lle yn eich dewis ysgol, bydd manylion eich plentyn yn cael eu cadw ar restr aros tan 31 Awst y flwyddyn academiaidd dan sylw yn y cais. Byddwch hefyd yn cael yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad fel yr amlinellir ar dudalen 37 - 39.

Plant sy'n derbyn Gofal

Yn achos plant sy'n derbyn gofal, rhaid i'r Gweithiwr Cymdeithasol gwblhau'r ceisiadau a'u dychwelyd i'r cyfeiriad uchod. Y Gweithiwr Cymdeithasol fydd yn arwain y broses o gael yr wybodaeth ganlynol a fydd yn cael ei rhannu â'r ysgol yn ystod cyfarfod, cyn cynnig lle i'r plentyn.

- Cynllun cefnogi disgybl
- Adroddiad Seicolegydd Addysg
- Barnau'r rhieni
- Manylion o'r ysgol flaenorol
- Gwybodaeth gan Anghenion Dysgu Ychwanegol (os yw hyn yn briodol)

TREFNIADAU DERBYN AR GYFER YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR

Mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn Sir Fynwy yn gyfrifol am eu trefniadau derbyn a dyrannu lleoedd eu hunain.

Yn achos Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Archesgob Rowan Williams ac Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr mae angen i chi gyflwyno cais drwy borth derbyniadau Cyngor Sir Fynwy.

Yn achos Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn Fair a Mihangel Sant ac Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair, mae angen i chi gysylltu â nhw yn uniongyrchol i wneud cais. Fodd bynnag, byddem yn eich cynghori i hefyd lenwi a dychwelyd ffurflen gais Sir Fynwy i gynnwys hyd at dri dewis (yn nhrefn blaenoriaeth) rhag ofn na fedrir dyrannu lle i chi yn eich dewis cyntaf – gofynnir i chi sicrhau y caiff eich dymuniad i fynychu ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol ei gynnwys yn eich dewisiadau.

Mae ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn penderfynu ar eu trefniadau derbyn eu hunain a chaiff y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael eu dangos ar y tudalennau dilynol.

Mae'r un amserlen gan ein holl ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ar gyfer prosesu ceisiadau ag ysgolion cymunedol. Mae'r dyddiadau hyn ar dudalen 23.

Polisi a Gweithdrefnau Derbyn Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams

Datganiad Ethos

Caiff ysgolion yr Eglwys yng Nghymru eu dynodi drwy gymeriad crefyddol ysgolion (gweithdrefn dynodi) fel bod â chyfeiriad crefyddol.

Cafodd y datganiad ethos dilynol ei fabwysiadu yn holl ysgolion yr Eglwys yng Nghymru:

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol, bydd yr ysgol yn cadw a datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth gyda'r Eglwys ar lefel plwyf ac esgobaeth.

Mae'r ysgol i wasanaethu ei chymuned drwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun credo ac ymarfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiad y mae'n ei gynnig i'w holl ddisgyblion.

Cyflwyniad

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion (2013) yn rhoi hawl i rieni i fynegi dewis i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o gronfeydd cyhoeddus. Mae polisi derbyn yr Ysgol yn eistedd o fewn paramedrau Cod Ymarfer Derbyn Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion Gorffennaf 2013.

Fel ysgol wirfoddol a gynorthwyir, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am y trefniadau derbyn yn Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams. Caiff cyfrifoldeb am drefniadau derbyn ei ddirprwyo i isbwyllgor o Gorff Llywodraethwyr yr ysgolion fel y pwyllgor derbyn. Cyflwynir ffurflenni cais i'r Awdurdod Lleol, sydd wedyn yn anfon y ffurflenni cais i'r pwyllgor derbyn. Os oes gennych un, dylid anfon tystlythyr ffydd gyda'ch ffurflen gais.

Bydd yr ysgol yn derbyn plentyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd pan fydd ef/hi yn 5 mlwydd oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau y gall rhieni ohirio anfon eu plentyn i'r ysgol tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed; fodd bynnag, mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Awdurdod Lleol y bydd y plentyn yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae'r polisi yn ei le i gynnwys y dilynol:

i) Ceisiadau cylch derbyn

Y broses gais i'w dilyn gan blant sy'n gymwys i gychwyn mewn ysgol gynradd

ii) Trosglwyddo o fewn y flwyddyn rhwng ysgolion

Y broses gais i gael ei dilyn ar gyfer plant sydd eisoes o oedran ysgol ond sy'n dymuno trosglwyddo o un ysgol i un arall.

Nifer derbyn

Mae'r nifer derbyn ar gyfer yr ysgol yn deillio o gapasiti ffisegol yr ysgol a gaiff ei gyfrif yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'.

Y nifer derbyn 30 yw'r nifer uchaf o blant y gellir ei derbyn i grŵp oedran perthnasol e.e. dosbarth derbyn, os derbynnir nifer ddigonol o geisiadau. Ni ellir gwrthod lle i ddisgyblion nes y cyrhaeddwyd 30 o ran nifer.

Mynegi dewis

Yn unol â chod ymarfer Derbyn i Ysgolion 2013, mae'n rhaid i rieni lenwi ffurflen gais er mwyn cael lle ysgol. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi "Ffurflen Gais Gyffredin" gan yr Awdurdod Lleol, gyda thystlythyr ffydd, os oes un, i gefnogi os oes un.

Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun dewis cyfartal, sy'n golygu y caiff pob dewis eu hystyried yn gyfartal yn unol â meini prawf yr ysgol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd, ac nid ar sail y drefn y cânt eu rhestru ar y cais. Pe byddai modd cyflawni mwy nag un dewis, cynigir y dewis safle uchaf a nodir ar y ffurflen gais.

Amserlen

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i gydlynu dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac anfon llythyrau cynnig ar draws ardal yr Awdurdod Lleol.

Y dyddiau a gytunwyd ar gyfer Cylch Derbyn 2024/2025 yw:

Cam Derbyn	Ffurflen Gais gan yr ysgol	Pecynnau cais cyffredin ar gael	Dyddiad cau	Cyfnod dyrannu Awdurdod Lleol	Hysbysu rhieni erbyn
Dosbarth Derbyn	Ar gael unrhyw amser	06.11.2023	9 Ionawr 2024 am 5pm	10.01.2024 15.04.2024	16.04.2024



Trefniadau Ceisiadau Hwyr

10 Ionawr 2024 -31 Ionawr 2024	10 Mai 2024
Chwefror 2024	24 Mai 2024
Mawrth 2024	31 Mai 2024
Ebrill 2024	7 Mehefin 2024
Mai 2024	21 Mehefin 2024
Mehefin 2024	5 Gorffennaf 2024
Gorffennaf 2024	9 Awst 2024
1-9 Awst 2024	16 Awst 2024
12-16 Awst 2024	23 Awst 2024
19 Awst ymlaen	O fewn 1 wythnos

Dosbarthu ffurflenni cais

Mae ffurflenni cais ar gael gan Gyngor Sir Fynwy ond maent hefyd ar gael ar wefan yr ysgol.

DALIER SYLW: I Gyngor Sir Fynwy ac NID yr ysgol y dylid dychwelyd pob ffurflen gais.

Dyrannu lleoedd ysgol

Lle mae nifer y ceisiadau a dderbynnir yn llai neu'n gyfartal â nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff pob plentyn ei dderbyn a thybio y gall yr ysgol gyflawni anghenion yr holl ymgeiswyr. Fodd bynnag, lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd yn yr ysgol, eir yn uwch na'r nifer derbyn a chaiff y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael eu defnyddio i ddethol pa blant gaiff gynnig lleoedd yn yr ysgol dan sylw. Os nodir Ysgol Gynradd (CG) Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams ar Ddatganiad o, mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn dan sylw.

Wrth weithredu'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu i pwy y dyfennir lle, rhoddir ystyriaeth gyfartal i holl ddewisiadau rhieni a chânt eu dyrannu yn unol â'r meini prawf islaw. Wrth ystyried y lleoedd eraill sydd ar gael, defnyddir y meini prawf dilynol i benderfynu pa blant y cynigir lleoedd iddynt:

1. Bydd plant sy'n derbyn gofal neu a dderbyniodd ofal yn flaenorol h.y. plant mewn gofal neu a fu'n flaenorol yng ngofal yr Awdurdod Lleol, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 3-7 islaw.
2. Plant sydd â sibling a dderbyniwyd dan bwynt 1 sy'n ddisgybl yn yr ysgol adeg gwneud cais ac a fydd yn ddisgybl yn yr ysgol adeg derbyn
3. Plant a gafodd eu bedyddio ac y mae eu rhieni yn addoli'n gyson/arferol mewn eglwys Anglicanaidd ac sy'n byw o fewn buddiolaeth Cil-y-coed.
4. Plant gyda chyfeiriad cartref yn nalgylch yr ysgol h.y. Leechpool, Porthysgewin a Sudbrook. Mae map o'r dalgylch ar gael gan swyddfa'r ysgol.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer sy'n ddisgybl yn yr ysgol adeg gwneud y cais ac a fydd yn ddisgybl yn yr ysgol amser derbyn.
6. Plant y mae eu rhieni yn addoli'n gyson/arferol mewn eglwys o enwad Cristnogol.
7. Plant gydag anghenion meddygol eithriadol, a gefnogir gan dystiolaeth ysgrifenedig a roddir fel arfer gan swyddog meddygol annibynnol neu berson priodol arall (gweler Nodyn 1 ar gyfer diffiniad).

Nodiadau:

Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac y mae'r Awdurdod Lleol wedi cadarnhau fydd yn derbyn gofal adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

Rhiant yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy'n warcheidwad cyfreithiol y plentyn.

Diffinnir addoliad cyson/arferol fel mynychu addoliad ar o leiaf un dydd Sul bob mis dros y 12 mis blaenorol. Mae'n rhaid i dystiolaeth o hyn gael ei roi gan ddatganiad ysgrifenedig a lofnodwyd gan yr offeiriad neu'r gweinidog perthnasol.

Bydd yr ysgol yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r man lle mae'r plentyn yn byw am fwyaf yr wythnos ysgol. Os caiff preswyliaeth plentyn ei rannu rhwng dau riant, defnyddir y cyfeiriad lle mae'r plentyn dan sylw yn byw am fwyaf yr wythnos ysgol ar gyfer dibenion dyrannu. Dyma'r cyfeiriad y dylid ei ddatgan ar y cais. Fodd bynnag, os yw'r breswyliaeth yn gyfartal rhwng y ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol, caiff y cyfeiriad lle telir y budd-dal plant ar gyfer dibenion dyrannu. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd unrhyw gyfeiriad a roddir drwy ofyn am dystiolaeth megis cynhwysiant ar y gofrestr etholiadol neu fil cyfleustodau diweddar yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad. Lle nad yw cyfeiriad parhaol plentyn yr un fath â'r rhieni (e.e. os yw'n byw gyda mam-gu neu dad-cu), mae'r ysgol yn cadw'r hawl i weld dogfennau swyddogol, megis llyfr budd-dal plant neu gerdyn meddygol. Nid yw trefniadau gofal plant yn ddigon o reswm dros restru cyfeiriad arall. Os ydych yn symud i'r dalgylch, byddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth eich bod yn symud cyn ystyried unrhyw gais am le. Fel arfer mae'r dystiolaeth yn llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau fod gennych gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol i brynu'r tŷ neu gytundeb les ffurfiol.

Mae sibling yn cyfeirio at frawd neu chwaer, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer fabwysiedig, llys frawd neu chwaer, plentyn maeth, neu blentyn partner rhiant/gofalwr lle mae'r plentyn y ceisir y lle ysgol iddo/iddi.

Bydd yr ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yr Awdurdod Lleol i gyfrif pellter o'r cartref i'r ysgol. Caiff y llwybr cerdded diogel byrraf ei gyfrif yn defnyddio llwybrau swyddogol sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau priffyrdd o brif fynedfa cyfeiriad cartref yr ymgeisydd i glwyd swyddogol agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Caiff manylion cyfeiriad ymgeisydd eu penderfynu yn defnyddio'r Local Land and Property Gazetteer (LLPG) a data Pwynt Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans.

Lle na fedrir penderfynu llwybr cerdded diogel ar gyfer ymgeisydd, defnyddir y llwybr gyrru byrraf ar gyfer dibenion dyrannu.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno i'w cais gael blaenoriaeth ar anghenion meddygol y plentyn gael eu cefnogi gan adroddiad ymgynghorydd meddygol (a geir gan y rhieni adeg gwneud cais) yn amlinellu pam mai'r dewis ysgol yw'r unig opsiwn hyfwrw a'r anawsterau a achosid pe bai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol arall.

Dilysu Cyfeiriad

Os oes angen gweithredu'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, bydd yn ofynnol i'r rhieni gyflwyno tystiolaeth addas i ddilysu eu cyfeiriad megis bil treth yngor.

Rhieni sydd yn y broses o symud tŷ

Bydd angen i rieni sydd yn y broses o symud tŷ hysbysu'r ysgol adeg gwneud cais am y symud arfaethedig a chyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd er mwyn i'r cyfeiriad yma gael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o'r cyfnewid contractau (ar gyfer prynu eiddo) neu gytundeb tenantiaeth hirdymor (ar gyfer trefniadau rhentu) sy'n rhaid eu derbyn cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd er mwyn cael eu hystyried fel cais "mewn pryd". Lle mae'r ysgol yn derbyn tystiolaeth i ddilysu symud tŷ ac yn defnyddio'r cyfeiriad newydd ar gyfer dibenion dyrnanu, bydd y cynnig o le ysgol yn seiliedig ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn yr eiddo hwn pan fydd y plentyn yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf. Gallai unrhyw gynig o le ysgol gael ei ddileu os canfyddir nad yw'r ymgeisydd yn breswyl yn yr eiddo adeg pan fydd y plentyn yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf.

Bydd y cynnig o le ysgol yn seiliedig ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn y cyfeiriad a ddatganwyd ar y ffurflen gais, fel ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, os yw'r rhiant/gofalwr yn gwybod cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd y byddant yn symud o'r cyfeiriad a ddatganwyd ar y cais, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Awdurdod Lleol cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd, lle caiff eu manylion cais wedyn eu diwygio.

Bydd hysbysiad newid cyfeiriad a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn arwain at i'r cais gael ei bennu fel un hwyr, os yw'n debygol o effeithio ar eu sefyllfa o fewn eu meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ar gyfer y dewis ysgol. Gallai unrhyw gynig o le ysgol gael ei ddiddymu fel canlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r uchod.

Dalgylchoedd ysgolion

Er bod byw o fewn dalgylch ysgol yn ffurfio'r ysgol yn ffurfio elfen o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail yma. Bydd yr ysgol yn gwrthod mwy na nifer derbyn yr ysgol, os nad yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r eithriadau a ganiateir.

Derbyn plant genedigaeth luosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi)

Wrth weithredu'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd, bod y plentyn ysgol i'w dderbyn yn un o enedigaeth luosog yna bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y sibling(iaid) eraill.

Derbyn tu allan i'r cylch arferol

Dylid gwneud pob cais ar gyfer unrhyw amser heblaw'r amser derbyn arferol i'r dosbarth Derbyn ar ffurflen gais Cyngor Sir Fynwy. Caiff y ffurflen hon wedyn ei hanfon i bwyllgor derbyn yr ysgol am benderfyniad ynghylch cynnig lle. Cynigir lleoedd yn amodol ar i leoedd fod ar gael yn y dosbarth perthnasol.

Trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr

Caiff unrhyw gais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd, neu geisiadau sy'n parhau'n anghyflawn (e.e. heb dystiolaeth i ddilysu cyfeiriad newydd) ar y dyddiad cau ond a dderbynnir cyn y dyddiad cau, eu trin dan y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr.

Hysbysu rhieni

Caiff rhieni eu hysbysu am benderfyniad ar eu cais ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd. Ar gyfer cylch derbyn 2024/2025, y dyddiad y caiff rhieni eu hysbysebu am benderfyniadau ar eu ceisiadau fydd 16 Ebrill 2024.

Derbyn lle ysgol

Pan dderbynnir cynnig o le ysgol, mae angen i rieni gadarnhau eu bod yn derbyn y lle ysgol drwy ysgrifennu o fewn 14 diwrnod o'r hysbysiad o gynnis y lle ysgol. Gallai methiant i wneud hynny olygu y caiff y cynnis o le ysgol ei ddiddymu.

Trosglwyddiadau o fewn y flwyddyn (derbyniadau tu allan i'r cylch derbyn arferol)

Caiff yr holl drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn eu trin yn nhrefn y dyddiad y cânt eu derbyn a lle derbynnir mwy o geisiadau ar yr un dydd na'r nifer o leoedd sydd ar gael, caiff meini prawf yr ysgol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael eu gweithredu i benderfynu pa blentyn/plant a gaiff gynnis lleoedd.

Fel rhan o'r broses, bydd yr ysgol yn cysylltu ag ysgol bresennol y plentyn i gael gwybodaeth i'w rhannu gyda'r ysgol sy'n derbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gefnogi trosglwyddo priodol rhwng ysgolion. Os derbynnir cais ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, yn unol â'r protocol a gytunwyd gydag ysgolion, trefnir cyfarfod plentyn sy'n derbyn gofal a gwahoddir pob parti sydd â diddordeb. Cyn y cyfarfod hwn mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol i rannu gwybodaeth berthnasol yn cynnwys y cynllun addysg personol, cofnodion ysgol a datganiad o anghenion addysgol, os oes gan y plentyn un.

Gwrthod derbyniad

Caiff gwrthod derbyn am le ysgol ei wneud yn unol gyda Chod Ymarfer Derbyniadau Ysgolion 2013 a bydd yn seiliedig ar y penderfyniadau dilynol:

- Byddai p'un ai i dderbyn plentyn yn amharu ar ddarparu addysg effeithiol neu ddefnydd effeithiol adnoddau
- Lle mae rhif derbyn wedi cyflawni rheoliadau Llywodraeth Cymru ar faint dosbarthiadau
- Yn dilyn gwrthod lle ysgol, caiff manylion y plentyn eu cadw ar restr aros hyd 31 Awst y flwyddyn academaidd y maent yn gwneud cais amdani. Os cyflwynir unrhyw leoedd yn ôl yn ystod y cyfnod hwn, caiff lleoedd eu dyrannu o'r rhestr aros yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd.

Rhestr aros

Caiff rhestr aros eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth yn ôl y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd a dim eu seilio ar ddyddiad cyflwyno cais. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am hysbysu'r ysgol am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ac felly le'r plentyn ar y rhestr aros. Byddai newid cyfeiriad yn enghraifft o hyn.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhiant dan sylw o fewn 7 diwrnod gwaith o'r lle yn dod ar gael, os yw eu plentyn yn cymhwyso i'w ystyried ar gyfer y lle. Caiff y rhiant 7 diwrnod i dderbyn neu wrthod yn ffurfiol y cynnis o'r lle ysgol mewn ysgrifen. Ar ôl y cyfnod hwnnw, caiff enw'r plentyn ei dynnu o'r rhestr aros a chynigir y lle i'r plentyn nesaf ar y rhestr aros, gan y bydd yr ysgol yn tybio nad oes angen y lle mwyach.

Apelio

Gall rhieni plant na chynigir lle iddynt apelio i banel apêl annibynnol. Mae manylion y drefn ar gyfer apelio ar gael gan yr ysgol ac fe'u rhoddir i rieni pan wrthodir lle ar gyfer eu plentyn.

Cynllun ar faint dosbarthiadau babanod

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarth lle mae'r gymhareb disgybl athro yn fwy na 1:30. Roedd y cynllun maint dosbarth babanod yn rhaglen a gyflwynwyd mewn camau rhwng mis Medi 1999 a mis Medi 2001 gan felly sicrhau y caiff pob plentyn hyd at 7 oed eu haddysgu mewn dosbarthiadau heb fod yn cynnwys mwy na 30 disgybl.

Cododd y ddau brif newid o ddeddfwriaeth ar feintiau dosbarth. Yn gyntaf, ni fydd yn ofynnol i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod os byddai gwneud hynny'n arwain at i ddosbarth weithredu ar gymhareb o fwy na 30:1 disgybl/athro.

Gall awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol lle byddai gwneud hynny'n golygu y byddai angen i'r ysgol gymryd 'mesurau cymhwyso' (h.y. cyflogi athro ychwanegol, adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol) i gyflawni'r terfyn statudol ar faint dosbarth.

Yn ail, wrth ddelio gyda'r apeliadau derbyn dan ddeddfwriaeth meintiau dosbarth, nid yw Panelau Apêl yn dilyn y broses dau gam fel yr amlinellir uchod. Yn lle hynny, dim ond os oedd y penderfyniad i beidio derbyn y plentyn oherwydd i'r trefniadau derbyn gael eu gweithredu'n anghywir neu nad oedd yr awdurdod derbyn yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud yn yr achos neilltuoel hwnnw y byddai Panel Apêl yn medru cynnal apêl rhiant.

Terfynau ar feintiau dosbarth Cyfnod Allweddol 2

Er nad oes unrhyw reoliadau i gyfyngu meintiau dosbarth i 30 yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r ysgol yn cefnogi'r Awdurdod Lleol yn ei ymrwymiad i gydymffurfio gyda tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau y cedwir y gymhareb 1:30 athro/disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2.

Eithriadau i'r cynllun maint dosbarthiadau babanod

Y mae fodd bynnag eithriadau (a elwir yn "ddisgyblion eithredig") a all ganiatáu i dderbyn mwy na'r terfyn o 30 disgybl fesul dosbarth. Disgyblion eithredig yw:

- Plant y mae eu datganiadau AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw neu a gaiff eu derbyn i'r ysgol tu allan i gylch derbyn arferol;
- Plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn flaenorol yn derbyn gofal a gaiff eu derbyn tu allan i'r cylch derbyn arferol;
- Plant y gwrthodir eu derbyn i'r ysgol i ddechrau, ond a gaiff wedyn gynnig lle tu allan i'r cylch derbyn arferol oherwydd cyfarwyddyd panel apêl derbyn neu oherwydd i'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol gydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol;
- Plant na all gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod wedi symud i'r ardal tu allan i gylch derbyn arferol;
- Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg Gymraeg lle mae'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'i bath o fewn pellter rhesymol o'u cartref;

- Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg mewn ysgol gyda chymeriad crefyddol dynodedig lle mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'i bath o fewn pellter rhesymol o'u cartref.
- Disgyblion a dderbynnir i'r ysgol o fewn grŵp oedran lle caiff plant eu derbyn fel arfer a
 - eu derbyn ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol; a
 - lle nad yw'r ysgol hyd yma wedi cyrraedd ei rhif derbyn ond eisoes wedi trefnu ei dosbarthiadau; a
 - lle byddai derbyn y plentyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd mesur perthnasol;
- Plant personél lluoedd arfog a gaiff eu derbyn tu allan i'r cylch derbyn arferol;
- Plant y caiff eu gefaill neu sibling o enedigaeth luosog eu derbyn fel disgyblion heb eu heithrio, fel y disgybl(ion) terfynol y dyrennir lle iddynt cyn cyrraedd y rhif derbyn.
- Plant sydd wedi cofrestru'n ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; a
- Phlant gyda AAA a gaiff eu haddysg fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd ond sy'n derbyn peth o'u gwersi mewn dosbarth heb fod yn arbennig.

Bydd disgyblion a eithrir yn parhau felly, unwaith y'u derbyniwyd, am weddill eu cyfnod yn y dosbarth babanod nes bod nifer yn y dosbarth yn gostwng ac y gellir eu trefnu i gydymffurfio gyda therfyn maint dosbarth babanod. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae'r manylion cyswllt fel sy'n dilyn:

Cyfeiriad: Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru (CG) Archesgob Rowan Williams, Heol Crick, Porthysgwin, Sir Fynwy, NP26 5UL

Ffôn: 01291 420526
 Ffacs: 01291 425971
 E-bost: arwprimary@monmouthshire.gov.uk
 Gwefan: www.arwprimaryschool.co.uk
 Twitter: @ARWPrimary

Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr Polisi a Gweithdrefnau Derbyn

Cyflwyniad

Mae'r Cod Derbyn Ysgolion (2013) yn rhoi hawl i rieni i fynegi dewis i'w plentyn gael ei (d)derbyn i unrhyw ysgol a gynhelir gyda chyllid cyhoeddus. Mae polisi derbyn yr ysgol yn dod o fewn paramedrau Cod Ymarfer Derbyn Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn Ysgolion Gorffennaf 2013.

Fel ysgol wirfoddol a gynorthwyr, y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am drefniadau derbyn Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr. Cafodd y cyfrifoldeb am drefniadau derbyn ei ddirprwyo i is-bwyllgor o Gorff Llywodraethu yr ysgol, a elwir y pwyllgor derbyn. Mae Uned Derbyn Myfyrwyr Cyngor Sir Fynwy yn cefnogi'r ysgol gyda phroses weinyddol derbyn i'r ysgol.

Bydd yr ysgol yn derbyn plentyn ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd pan fydd yn 5 mlwydd oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau y gall rhieni ohirio derbyn eu plentyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed; fodd bynnag, mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Awdurdod Lleol y bydd y plentyn yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn gronolegol os nad oes amgylchiadau eithriadol.

Mae'r polisi yn ei le i gynnwys y dilynol:

- Ceisiadau cylch derbyn. Y broses gais i gael ei dilyn ar gyfer plant sy'n gwmwys i ddechrau yn yr ysgol gynradd.
- Trosglwyddiadau o fewn y flwyddyn rhwng ysgolion. Y broses gais i gael ei dilyn ar gyfer plant sydd eisoes o oedran ysgol, ond sy'n dymuno trosglwyddo o un ysgol i un arall.

Nifer derbyn

Mae nifer derbyn yr ysgol yn deillio o gapasiti ffisegol yr ysgol a gafodd ei gyfrif yn unol â dogfen 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru.

Y nifer derbyn o 55 yw'r nifer y dylid derbyn plant ato i grŵp oedran perthnasol e.e. dosbarth derbyn, os derbynnir nifer ddigonol o geisiadau. Ni ellir gwrthod lle i ddisgyblion nes cyrhaeddir y nifer o 55.

Mynegi dewis

Yn unol â chod ymarfer Derbyn i Ysgolion 2013, mae'n rhaid i rieni lenwi 'Ffurflen Gais Gyffredin' gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn gweithredu system dewis cyfartal, sy'n golygu y caiff pob dewis ei ystyried yn gyfartal yn unol gyda meini prawf yr ysgol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, ac nid ar sail y drefn y cânt eu rhestru ar y cais. Pe gellid cyflawni mwy nag un dewis, caiff y dewis uchaf a ddangosir ar y ffurflen gais ei gynnig.

Amserlen

Y dyddiadau a gytunwyd ar gyfer Cylch Derbyn 2024/25 yw:

Cam Derbyn	Ffurflen Gais gan yr ysgol	Pecynnau cais cyffredin ar gael	Dyddiad cau	Hysbysu rhieni erbyn
Dosbarth Derbyn	Ar gael unrhyw amser	06.11.2023	9 Ionawr 2024 am 5pm	16.04.2024

Trefniadau Ceisiadau Hwyr

10 Ionawr 2024 -31 Ionawr 2024	10 Mai 2024
Chwefror 2024	24 Mai 2024
Mawrth 2024	31 Mai 2024
Ebrill 2024	7 Mehefin 2024
Mai 2024	21 Mehefin 2024
Mehefin 2024	5 Gorffennaf 2024
Gorffennaf 2024	9 Awst 2024
1-9 Awst 2024	16 Awst 2024
12-16 Awst 2024	23 Awst 2024
19 Awst 2024 ymlaen	O fewn 1 wythnos

Dosbarthu ffurflenni cais

Meithrin

Rhaid i geisiadau am le mewn meithrinfa gael ei gyflwyno yn unol gyda'r dyddiadau uchod. Mae modd derbyn plentyn o'r term sydd yn dilyn ei benblwydd yn 3 mlwydd oed os oes lle ar gael. Mae manylion am sut i wneud cais ar gael yma:

[Derbyn i Meithrinfeydd – Sir Fynwy](#)

Ysgol Gynradd

Rhaid cyflwyno cais am le yn y Dosbarth Derbyn ar-lein ac mae modd gwneud hyn yma: :

[Dechrau ysgol gynradd – Sir Fynwy](#)

Dyrannu lleoedd ysgol

Lle mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn llai neu'n gyfartal â'r nifer o leoedd sydd ar gael, caiff pob plentyn eu derbyn os gall yr ysgol ddiwallu anghenion pob ymgeisydd. Fodd bynnag, pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd mewn ysgol, eir dros y nifer derbyn a chaiff y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael eu gweithredu i ddewis pa blant gaiff gynnig lleoedd yn yr ysgol dan sylw. Os caiff Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr ei nodi ar Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn dan sylw.

Pan weithredir y meini prawf os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu i bwy y caiff lleoedd eu dyrannu, caiff pob dewis gan rieni eu trin yn gyfartal a'u dyrannu yn unol â'r meini prawf isod. Wrth ystyried gweddill y lleoedd sydd ar gael, caiff y meini prawf dilynol eu defnyddio i benderfynu pa blant gaiff gynnig lleoedd.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant sy'n flaenorol wedi derbyn gofal h.y. caiff plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol neu a fu'n flaenorol yng ngofal yr Awdurdod Lleol flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 2-6 isod. (Gweler Nodyn 1 isod)
2. Plant sydd ag o leiaf un rhiant sy'n mynychu addoliad/Ysgol Sul yn rheolaidd/arferol mewn eglwys o fewn Ardal Gweinidogaeth Magwyr (Gweler Nodiadau 2 a 4 isod)
3. Plant sydd ag o leiaf un rhiant sy'n mynychu addoliad yn rheolaidd/arferol mewn eglwys Anglicanaidd arall (Gweler Nodiadau 2 a 3 isod)
4. Plant sydd ag o leiaf un rhiant sy'n mynychu addoliad yn rheolaidd/arferol mewn eglwys o enwad Cristnogol arall (Gweler Nodiadau 2 a 3 isod)
5. Plant sydd ag o leiaf un rhiant sy'n mynychu addoliad yn rheolaidd/rheolaidd mewn man addoliad ffydd arall (Gweler Nodiadau 2 a 3 isod)

- Plant sydd â sibling sy'n ddisgybl yn yr ysgol adeg gwneud cais ac a fydd yn ddisgybl yn yr ysgol adeg derbyn (Gweler Nodyn 4 isod)
- Plant gydag anghenion meddygol eithriadol, a gefnogir gan dystiolaeth ysgrifenedig, a roddir fel arfer gan swyddog meddygol annibynnol neu berson priodol arall. (Gweler Nodyn 8 isod)

Nodiadau:

- Mae plentyn sy'n derbyn gofal yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau fydd yn derbyn gofal adeg y caiff y plentyn ei dderbyn i'r ysgol.
- Rhiant yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros, neu sy'n warcheidwad cyfreithiol i, y plentyn.
- Caiff addoliad rheolaidd/arferol ei ddiffinio fel mynychu addoliad ar o leiaf un dydd Sul bob mis dros y 12 mis blaenorol. Mae'n rhaid i dystiolaeth o hyn gael ei roi gan ddatganiad ysgrifenedig a lofnodwyd gan yr offeiriad neu weinidog perthnasol.
- Mae sibling yn cyfeirio at frawd neu chwaer, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer mabwysiedig, llys frawd neu chwaer, plentyn maeth, neu blentyn partner y rhiant/gofalwr lle y ceisir lle ysgol i'r plentyn.
- Bydd yr ysgol yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw lle mae'r plentyn yn preswyllo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Os caiff preswyliaeth plentyn ei rannu rhwng dau riant, defnyddir y cyfeiriad lle mae'r plentyn dan sylw yn preswyllo am fwyafrif yr wythnos ysgol ar gyfer dibenion dyrannu. Dyma'r cyfeiriad y dylid ei ddatgan ar y cais. Fodd bynnag, os yw preswyliaeth gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol yn gyfartal, caiff y cyfeiriad lle telir y budd-dal plentyn ei ddefnyddio ar gyfer dibenion dyrannu.

Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd unrhyw gyfeiriad a roddir, drwy ofyn am dystiolaeth tebyg i gynnwys ar y Gofrestr Etholiadol, neu fil cyfleustodau diweddar yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad. Lle nad yw cyfeiriad parhaol y plentyn yr un ag ar gyfer y rhieni (e.e. mae ef neu hi yn preswyllo gyda mam-gu neu dad-cu), mae'r ysgol yn cadw'r hawl i weld dogfennau swyddogol, tebyg i lyfr budd-dal plant neu gerdyn meddygol. Nid yw trefniadau gofal plant yn ddigonol am restru cyfeiriad arall. Os ydych yn symud i'r dalgylch, byddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth o'ch symud, cyn ystyried unrhyw gais am le. Tystiolaeth arferol yw llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau fod gennych gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol i brynu'r tŷ neu gytundeb prydles ffurfiol.

- Bydd yr ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Daearyddol (GIS) yr Awdurdod Lleol i gyfrif pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Caiff y llwybr cerdded diogel byrraf ei gyfrif yn defnyddio llwybrau swyddogol sy'n hysbys i'r Awdurdodau Lleol ac asiantaethau priffyrdd, o brif fynedfa cyfeiriad cartref yr ymgeisydd at glwyd agored swyddogol agosaf yr ysgol. Caiff manylion cyfeiriad ymgeisydd eu penderfynu yn defnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans.
- Lle na fedrir penderfynu llwybr cerdded diogel ar gyfer ymgeisydd, defnyddir y llwybr gyrru byrraf ar gyfer dibenion dyrannu.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno i'w cais gael blaenoriaeth ar sail anghenion meddygol y plentyn gael eu cefnogi gan adroddiad ymgynghorydd meddygol (a geir gan y rhieni adeg gwneud cais) yn amlinellu pam mai'r dewis ysgol yw'r unig opsiwn hyfyr a'r anawsterau a achosid pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall.

Dilysu cyfeiriad

Os oes angen gweithredu'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leodd, bydd angen i rieni ddangos dystiolaeth addas i ddilysu eu cyfeiriad tebyg i fil treth gyngor.

Rhieni yn y broses o symud eiddo

Bydd angen i rieni sydd yn y broses o symud tŷ i hysbysu'r ysgol adeg gwneud cais am y bwriad i symud a chyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad hwn gael ei ystyried. Mae tystiolaeth addas yn cynnwys copi o gyfnewid contractau (ar gyfer pryniannau) neu gytundeb tenantiaeth hirdymor (ar gyfer trefniadau rhentu), ac mae'n rhaid ei dderbyn cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn cael ei ystyried fel cais "mewn amser". Lle mae'r ysgol yn derbyn tystiolaeth i ddilysu symud tŷ ac yn defnyddio'r cyfeiriad newydd ar gyfer dibenion dyrannu, bydd y cynnig o le ysgol yn seiliedig ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn y cyfeiriad hwn pan fydd y plentyn yn mynd i'r ysgol. Gallai unrhyw gynig o le ysgol gael ei ddileu os canfyddir nad yw'r ymgeisydd yn breswyl yn y cyfeiriad adeg y bydd ei plentyn yn mynd i'r ysgol.

Caiff y cynnig o le ysgol ei seilio ar i'r ymgeisydd fod yn breswyl yn y cyfeiriad a roddwyd ar y ffurflen gais, fel ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, os yw rhiant/gofalwyr yn gwybod cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd y byddant yn symud o'r cyfeiriad a roddwyd ar y cais, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Awdurdod Lleol cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd, a chaiff manylion eu cais eu diwygio. Bydd hysbysiad am newid cyfeiriad a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cais a gyhoeddwyd yn golygu y caiff y cais ei benderfynu fel un hwyr, os yw'n debygol o effeithio ar eu sefyllfa o fewn y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ar gyfer y dalgylch ysgol.

Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol fel canlyniad i beidio cydymffurfio â'r uchod.

Dalgylchoedd ysgolion

Er fod preswyl o fewn dalgylch ar gyfer ysgol yn ffurfio elfen o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail hwn. Bydd yr ysgol yn gwrthod derbyn yn uwch na nifer derbyn yr Ysgol, os nad yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r eithriadau a ganiateir.

Derbyn plant genedigaeth luosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi)

Os pan weithredir y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael fod y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth luosog, yna bydd yr ysgol yn derbyn y sibling(iaid) eraill.

Derbyn tu allan i'r cylch arferol

Dylai pob cais am dderbyn ar unrhyw amser heblaw'r mynediad arferol i'r Dosbarth Derbyn gael eu gwneud ar ffurflen gais yr Awdurdod Lleol. Caiff hyn wedyn ei anfon at yr ysgol. Caiff lleoedd eu cynnig yn amodol ar i ofod fod ar gael yn y dosbarth perthnasol.

Trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr

Caiff unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir, neu ceisiadau sy'n parhau'n anghyflawn (e.e. heb dystiolaeth i wirio cyfeiriad newydd) ar y dyddiad cau ond a dderbynnir cyn y dyddiad cau, eu trin dan y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr.

Hysbysu rhieni

Caiff rhieni eu hysbysu am benderfyniad ar eu cais ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd.

Derbyn lle ysgol

Pan dderbynnir cynnig am le ysgol, mae'n ofynnol i rieni gadarnhau eu bod yn derbyn y lle ysgol hwn o fewn 14 diwrnod o hysbysiad am y cynnig lle ysgol. Gallai methiant i wneud hynny olygu y caiff y cynnig o le ysgol ei ddileu.

Trosglwyddo yn ystod y flwyddyn (derbyn tu allan i'r cylch derbyn arferol)

Caiff pob achos o drosglwyddo yn ystod y flwyddyn eu trin yn ôl y dyddiad y cyrhaeddant a lle derbynnir mwy o geisiadau ar yr un diwrnod na'r nifer o leoedd sydd ar gael, caiff meini prawf yr ysgol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ei weithredu i benderfynu i ba blant/blentyn y cynigir lleoedd.

Fel rhan o'r broses, bydd yr ysgol yn cysylltu ag ysgol bresennol y plentyn i gael gwybodaeth i'w rhannu gyda'r ysgol sy'n derbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gefnogi pontio priodol rhwng ysgolion.

Os derbynnir cais ar ôl plentyn sy'n derbyn gofal, yn unol â'r protocol a gytunwyd gyda ysgolion, trefnir cyfarfod plant sy'n derbyn gofal gan wahodd pawb sy'n diddordeb. Cyn y cyfarfod hwn bydd angen i'r awdurdod sy'n lleoli rannu gwybodaeth berthnasol yn cynnwys y Cynllun Addysg Personol, cofnodion yr ysgol a'r Datganiad Anghenion Addysgol, os oes gan y plentyn un.

Gwrthodiad derbyn

Caiff gwrthodiad derbyn i ysgol ei wneud yn unol â Chod Ymarfer Derbyn Ysgolion 2013 ac mae'n seiliedig ar y penderfyniadau dilynol: P'un ai a fyddai derbyn plentyn yn rhagfarnu darparu addysg effeithol neu ddefnydd effeithiol o adnoddau – Lle mae'r nifer derbyn wedi cyrraedd rheoliadau Llywodraeth Cymru ar faint dosbarth.

Yn dilyn gwrthod lle ysgol, caiff manylion y plentyn eu dal ar restr aros tan 31 Awst y flwyddyn academaidd y maent yn gwneud cais amdani. Os caiff unrhyw leoedd eu rhoi yn ôl yn ystod y cyfnod hwn, caiff lleoedd eu dyrannu o'r rhestr aros yn unol â'r meini prawf os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

Rhestr aros

Caiff rhestr aros eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ac ni chânt eu seilio ar ddyddiad cyflwyno cais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r ysgol am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y meini prawf hynny ac felly le eu plentyn ar y rhestr aros. Byddai newid cyfeiriad yn enghraifft o hyn.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhiant perthnasol o fewn 7 diwrnod gwaith i le ddod ar gael os yw eu plentyn yn cymhwyso ar gyfer ystyriaeth o'r lle. Caiff y rhiant 7 diwrnod i dderbyn neu wrthod yn ffurfiol mewn ysgrifen y cynnig o'r lle ysgol. Ar ôl hynny caiff enw'r plentyn ei dynnu o'r rhestr aros a chaiff y lle ei gynnig i'r plentyn nesaf ar y rhestr aros, gan y bydd yr ysgol yn tybio nad oes angen y lle mwyach.

Apeliadau

Gall rhieni plant na chynigiwyd lle iddynt apelio i banel apeliadau annibynnol. Mae manylion y weithdrefn ar gyfer apeliadau ar gael gan yr ysgol a chânt eu rhoi i rieni pan wrthodir lle i'w plentyn.

Cynllun Maint Dosbarthiadau Babanod

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarth lle mae'r gymhareb rhwng disgyblion ac athro yn fwy na 1:30. Roedd y Cynllun Maint Dosbarthiadau Babanod yn rhaglen a gyflwynwyd mewn camau rhwng mis Medi 1999 a mis Medi 2001 gan felly sicrhau y caiff pob plentyn hyd at 7 oed eu haddysgu mewn dosbarthiadau yn cynnwys dim mwy na 30 disgybl.

Cododd dau brif newid o'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau. Yn gyntaf, ni fydd yn ofynnol i awdurdodau dderbyn plentyn i ddosbarth babanod os byddai gwneud hynny yn golygu y byddai dosbarth yn gweithredu gyda chymhareb athro/disgybl fwy na 30 disgybl.

Gall awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i'r ysgol lle byddai gwneud hynny yn golygu y byddai angen i'r ysgol gymryd 'mesurau cymhwyso' (h.y. cyflogi athro ychwanegol, adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol) i gyrraedd y terfyn statudol ar faint dosbarthiadau. Yn ail, wrth ddelio gydag apeliadau derbyn dan ddeddfwriaeth maint dosbarth, nid yw Panel Apeliadau yn dilyn y broses ddau gam a amlinellir uchod. Yn lle hynny, dim ond os y gwnaed y penderfyniad i beidio derbyn y plentyn oherwydd i'r trefniadau gweithredu gael eu gweithredu'n anghywir neu nad oedd penderfyniad yr awdurdod derbyn yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud yn yr achos neilltuoel hwnnw, y gall Panel Apêl gadarnhau apêl gan rieni.

Terfynau maint dosbarth Cyfnod Allweddol 2

Er nad oes unrhyw reoliadau i gyfyngu maint dosbarthiadau i 30 yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r ysgol yn cefnogi'r Awdurdod Lleol yn ei ymrwymiad i gydymffurfio gyda tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau y cynhelir y gymhareb athro disgybl o 1:30 yng Nghyfnod Allweddol 2.

Eithriadau i'r cynllun maint dosbarth Babanod

Y mae fodd bynnag eithriadau (a elwir yn "ddisgyblion eithriedig") a all ganiatáu mynd dros y terfyn o ddosbarth 30 disgybl. Y disgyblion a eithrir yw:

- i. Plant ag ADY lle y mae eu Cynllun Datblygu Unigol yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol;
- ii. Plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol a gaiff eu derbyn tu allan i'r cylch derbyn arferol.
- iii. Plant y gwrthodwyd derbyn i'r ysgol i ddechrau, ond a gafodd wedyn gynnig le y tu allan i gylch derbyn arferol yn ôl cyfarwyddyd panel apêl derbyn, neu oherwydd bod y person sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad mewn gweithredu trefniadau derbyn yr ysgol;
- iv. Plant na all sicrhau lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod yn symud i'r ardal tu allan i gylch derbyn arferol;
- v. Plant y dymunir iddynt gael addysg mewn ysgol Gymraeg iddynt lle mae'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'i bath o fewn pellter rhesymol o'u cartref;
- vi. Plant y dymunir iddynt gael addysg mewn ysgol o gymeriad crefyddol dynodedig iddynt lle mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol o'u cartref;
- vii. Disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol o fewn grŵp oedran y caiff plant eu derbyn fel arfer ac *eu derbyn ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol; a * lle nad yw'r ysgol hyd yma wedi cyrraedd ei nifer derbyn ond eisoes wedi trefnu ei dosbarthiadau; a * lle byddai derbyn y plentyn yn golygu y byddai'r ysgol yn gorfod cymryd mesur perthnasol;
- viii. Plant personél y lluoedd arfog a gaiff eu derbyn tu allan i'r cylch derbyn arferol;
- ix. Plant y cafodd eu gefell neu sibling o enedigaeth luosog eu derbyn fel disgyblion heb eu heithrio, wrth i'r lleoedd olaf gael eu dyrannu cyn y cyrhaeddir nifer derbyn.
- x. Plant sydd wedi cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; a

- xi. Plant gyda ADY a gaiff eu haddysgu'n arferol mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd ond sy'n derbyn rhai o'u gwersi mewn dosbarth heb fod yn ddosbarth arbennig. Bydd y disgyblion a eithrir yn parhau felly, unwaith y cânt eu derbyn, ar gyfer gweddill eu hamser yn y dosbarth babanod neu nes bod nifer dosbarthiadau yn gostwng ac y gellir eu trefnu i gydymffurfio gyda'r terfyn ar faint dosbarth babanod.

Cysylltwch â'r ysgol i gael mwy o wybodaeth. Mae'r manylion cyswllt fel sy'n dilyn:

Cyfeiriad:

Pennaeth Ysgol

Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr

Sycamore Terrace

Magwyr

Sir Fynwy

NP26 3EG

e-bost: anneclibbett@monmouthshire.gov.uk

Gwefan: www.magorciwprimary.co.uk

Pennaeth – Ms S Hamer

Cadeirydd y Panel Derbyn – Rev Canon Jeremy Harris

Ysgol Gynradd Gatholig Mair Forwyn a Mihangel Sant

Cyflwyniad

Caiff Ysgol Gynradd Mair Forwyn a Mihangel Sant ei gweithredu dan ymddiriedolaeth Abaty Belmont ac Archesgobaeth Caerdydd. Caiff ei chynnal gan Awdurdod Lleol Sir Fynwy. Fel ysgol wirfoddol a gynorthwyr, y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac sy'n gyfrifol am gymryd penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer derbyn.

Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg holistig Gatholig a gofynnir i'r rhieni sy'n gwneud cais am leoedd ar gyfer eu plant i gefnogi cymeriad ac ethos Catholig yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Mair Forwyn a Mihangel Sant yn parchu yn llawn greddau rieni a phlant o bob enwad a chefnidir, yn cynnwys y rhai gyda neu heb ffydd.

Caiff disgyblion Ysgol Mair Forwyn a Mihangel Sant eu haddysgu i drin eraill gyda thrugaredd, parch a goddefgarwch. Mae darpariaeth yn y rhaglen Addysg Grefyddol hefyd i blant ddysgu am ffyddau eraill y byd.

Nodau'r Ysgol

- Bod yn gymuned neilltuol Gatholig groesawgar o gariad a gofal dwfn, lle caiff pawb eu gwerthfawrogi am bwy ydynt.
- Creu partneriaeth gref rhwng y cartref, ysgol a'r plwyf a bod o wasanaeth i'r gymuned leol a byd-eang.
- Adnabod presenoldeb Crist yn ein bywydau ac i ddathlu Ei gariad atom drwy weddiâu, addoli ac ym mhopeth a wnawn.
- Bod yn ysgol gyda dealltwriaeth ddofn o'r angen am sancteiddrwydd er mwyn bod yn dyst i Grist ym myd heddiw.
- Darparu addysg ansawdd uchel sy'n ysbrydoli ac sy'n greadigol i alluogi plant a staff i gyflawni eu potensial llawn wrth gyflawni heriau'r byd modern.
- Sicrhau ein bod i gyd yn rhannu perchnogaeth o genhadaeth a datganiadau cenhadaeth yr ysgol wrth chwilio am ragoriaeth.
- Bod yn gymuned efengylol lle rydym yn maethu ffydd ein plant a'r teulu ysgol ehangach drwy weddi a bywyd litwrgaidd a sagrafennol yr ysgol.
- Parhau â'n taith pererin fel ysgol gyda brwdfrydedd am deyrnas Dduw a phenderfyniad i feithrin yr holl berson.

Mae croeso bob amser i deuluoedd i gysylltu â'r ysgol i drefnu ymweliad ar unrhyw adeg.

Admissions

The Governing Body is guided in the responsibility for admissions by the requirements of the law, by the advice of the Archdiocesan trustees and its duty to the School and the Catholic community. In accordance with current legislation, the Governing Body has delegated responsibility for determining admissions to its 'Admissions Panel', a Committee of the Governing Body. The Admissions Panel will consider all applications made in accord with the criteria as set out, without reference to the race, gender, ability, disability, social background or aptitude of the child.

Late applications will be considered in accordance with the requirements of the Schools Admissions Code.

Having consulted with the LA and others in accordance with the requirements of the law, the Governing Body has set its planned admission number at 30 pupils in Reception for the school year commencing September 2024.

Places in other year groups are also limited to 30 pupils.

Parents/guardians wishing to apply for a place for their child for the start of the academic year 2024-2025 must complete the school application form in full, and return it to the school no later than the dates set out in the time table for applications found in this document.

Please note that ALL applications must be submitted on this form and all applications will be considered at the same time. Please note that all applications under criteria 1, 2 and 3 (baptised Catholic children) must be accompanied by proof of baptism. Children with an SEN statement naming the school will be admitted.

The minimum age of entry to the school is 4 years provided that the child's 5th birthday falls between the 1st September and 31st August of that academic year. Parents can choose to defer their child's entry to school until the term following their 5th birthday.

Letters will be dispatched on the published Common Offer Date, informing you of the decision of the Admissions Panel in respect of your application. Where the application is unsuccessful, the reason(s) will be stated clearly in the letter, and you will be provided with information as to how to appeal the decision. Applicants who are not accepted will be placed on the school's Waiting List. Applicants will remain on the Waiting List until 30 September. In the event that places become available, the applicants on the Waiting List will be reviewed against the Oversubscription Criteria and offers made to fill available places.

Dylai ceisiadau ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gynradd arall yn ystod y flwyddyn academaidd gael eu gwneud yn defnyddio Ffurflen Cais Trosglwyddo Ysgolion. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn ystyried pob cais. Os yw'r nifer sy'n gwneud cais am drosglwyddo yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu ar yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Mae gan rieni hawl apelio yn erbyn gwrthodiad gan y Corff Llywodraethu i dderbyn eu plentyn. Os dymunant wneud hynny, dylent wneud eu hapêl mewn ysgrifen i Glerc Llywodraethwyr yr Ysgol o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o'r dyddiad hysbysu. Caiff apeliadau eu trefnu gyda phanel annibynnol a'u cynnal yn unol â Chod Apeliadau Derbyn yr Ysgol.

Ar gyfer pob cais llwyddiannus, caiff y data a gynhwysir yn y ffurflen gais ei chadw ar system gwybodaeth rheoli'r ysgol a'i defnyddio ar gyfer dibenion a amlinellir yn y 'gorchymyn prosesau teg'. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch y data personol a gedwir gan yr ysgol dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae gan unigolion hawl mynediad i wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt a hefyd yr hawl i unrhyw gamgymeriadau gael eu cywiro.

Bydd y Corff Llywodraethu yn asesu ceisiadau ar gyfer derbyn i'r ysgol, yn defnyddio'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais am le yn yr ysgol. Lle mae nifer y ceisiadau yn gyfartal neu'n is na'r nifer derbyn, caiff pob cais eu derbyn. Lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn gweithredu'r meini prawf dilynol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hynny.

Meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael

1. Plant Catholig sy'n derbyn gofal neu blant Catholig sy'n flaenorol wedi derbyn gofal (mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth bedydd gyda'r ffurflen gais).
2. Plant Catholig a fedyddiwyd (mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth bedydd gyda'r ffurflen gais).

3. Siblingiaid plant Catholig a fedyddiwyd fydd yn mynychu Ysgol Gynradd Mair Forwyn a Mihangel Sant adeg derbyn (gweler nodyn 3 islaw).
4. Plant eraill sy'n derbyn gofal neu sy'n flaenorol wedi derbyn gofal.
5. Plant sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig adeg y cais ac y mae'r rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i geisio addysg benodol Gristnogol iddynt.
6. Plant sy'n mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru adeg gwneud y cais ac y mae'r rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i geisio addysg benodol Gristnogol iddynt.
7. Siblingiaid plant eraill fydd yn mynychu Ysgol Gynradd Mair Forwyn a Mihangel Sant adeg derbyn (gweler nodyn 3 islaw).
8. Plant eraill y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn ceisio addysg benodol Gristnogol iddynt.

Os yw nifer y plant yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn, os yw popeth arall yn gyfartal bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pellter byrraf ar gyfer y disgybl o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio'r cyfrifydd pellter a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Nodiadau:

1. Mae 'Catholig' hefyd yn cynnwys Eglwysi Catholig Dwyreiniol mewn undeb gyda Phabaeth Rhufain.
2. Mae'n rhaid anfon tystiolaeth o fedydd gyda phob cais ar gyfer maen prawf 1, 2 a 3.
3. Diffinnir 'siblingiaid' fel y rhai sy'n rhannu mam neu dad yn gyffredin, mab neu dad mabwysiadol, neu'n ffurfio rhan o uned deuluol sefydledig. Bydd blaenoriaeth drwy gyfeirio at y sibling ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Wrth ddyrannu lleoedd, os cynigir y lle olaf i blentyn o enedigaeth luosog (e.e. gefaill neu dribled), bydd yr ysgol hefyd yn derbyn y sibling(iaid) eraill.

Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair, Cas-gwent Trefniadau Derbyn Medi 2024

Cyflwyniad

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol yn rhoi canllawiau ar y broses y dylid ei dilyn wrth amrywio'r trefniadau derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer unrhyw Awdurdod Derbyn. Y Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair.

Yn unol â'r cod, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad rhwng 1 Medi a 7 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r un sy'n dechrau ddwy flynedd academaidd cyn i'r trefniadau ddod i rym ac felly mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu yn awr ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r trefniadau derbyn sydd mewn grym o fis Medi 2024. Cafodd y trefniadau ar gyfer Medi 2023 eu cymeradwyo a'u cyhoeddi eisoes ar wefan yr ysgol a Llawlyfr Gwybodaeth Rhieni 2024/25 Cyngor Sir Fynwy

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon wneud hynny un ai drwy ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr, d/o Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair, Hen Heol Bulwark, Cas-gwent, Sir Fynwy, NP16 5JE neu e-bost stmaryprimary@monmouthshire.gov.uk. Rhaid derbyn yr holl sylwadau erbyn 12 canol-dydd 1 Mawrth 2024.

Amserlen Derbyn i'r Ysgol - Medi 2023

Cam Derbyn	Pecynnau cais cyffredin ar gael	Dyddiad cau	Hysbysu rhieni erbyn
Dosbarth Derbyn	6 Tachwedd 2023	9 Ionawr 2024 am 5pm	16 Ebrill 2024

Sut i wneud cais

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn/phlentyn cael eu derbyn i'r ysgol. Gellir cael ffurflen gais o swyddfa'r ysgol. Caiff pob cais ei ystyried drwy gyfeirio at y polisi yma. Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â'r ysgol. Dylid dychwelyd pob ffurflen gais at:

Ysgol Gynradd Mair Forwyn a Mihangel Sant, 14 Pen-y-Pound, Y Fenni, NP7 5UD.

E-bost: ourladystmichaels@monmouthshire.gov.uk,

Gwefan: www.olsm.co.uk **Ffôn:** (01873)735080

Amserlen Derbyn i'r Ysgol

Cam Derbyn	Pecynnau cais cyffredin ar gael	Dyddiad cau	Hysbysu rhieni erbyn
Dosbarth Derbyn	6 Tachwedd 2023	9 Ionawr 2024 am 5pm	16.04.2024

Trefniadau Ceisiadau Hwyr

10 Ionawr 2024 -31 Ionawr 2024	10 Mai 2024
Chwefror 2024	24 Mai 2024
Mawrth 2024	31 Mai 2024
Ebrill 2024	7 Mehefin 2024
Mai 2024	21 Mehefin 2024
Mehefin 2024	5 Gorffennaf 2024
Gorffennaf 2024	9 Awst 2024
1-9 Awst 2024	16 Awst 2024
12-16 Awst 2024	23 Awst 2024
19 Awst ymlaen	O fewn 1 wythnos

Trefniadau Ceisiadau Hwyr

10 Ionawr 2024 -31 Ionawr 2024	10 Mai 2024
Chwefror 2024	24 Mai 2024
Mawrth 2024	31 Mai 2024
Ebrill 2024	7 Mehefin 2024
Mai 2024	21 Mehefin 2024
Mehefin 2024	5 Gorffennaf 2024
Gorffennaf 2024	9 Awst 2024
1-9 Awst 2024	16 Awst 2024
12-16 Awst 2024	23 Awst 2024
19 Awst 2024 ymlaen	O fewn 1 wythnos

Derbyn/Ceisiadau Hwyr i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair

Gall plant ddechrau'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau y gall rhieni ohirio mynediad eu plentyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed, ac ni fydd cais o'r fath yn gwanhau cais mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag y disgwyliad yw y bydd y plentyn ar ôl dechrau'r ysgol yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol os nad oes amgylchiadau eithriadol. Wrth ystyried derbyn i'r grŵp blwyddyn dosbarth Derbyn, dylai rhieni gofio nad yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu lle mewn unrhyw ysgol gynradd neu ysgol babanod gan fod angen cais ar wahân ac ni roddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n mynychu unrhyw osodiad meithrin penodol.

Mae'n rhaid defnyddio'r pecyn cais cywir sydd ar gael gan yr ysgol neu ar wefan yr ysgol i wneud ceisiadau am leoedd ysgol. Dim ond personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a enwir a all wneud cais, a bydd angen i'r person sy'n llenwi'r cais wneud datganiad yn cadarnhau hyn.

Mae'n rhaid i bob ffurflen gais a lenwyd gael eu dychwelyd yn uniongyrchol erbyn y dyddiad cau o 9 Ionawr 2024. Cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw sicrhau fod yr ysgol yn derbyn eu ffurflen gais wedi'i llenwi'n ddiogel ac ar amser. Os yn postio cais, argymhellir y caiff y ffurflen ei hanfon drwy ddosbarthiad wedi ei gofnodi.

Caiff ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau eu hystyried ar yr un pryd ac anfonir llythyrau penderfyniad at rieni ddydd Gwener 16 Ebrill 2024 i'w hysbysu os bu eu cais yn llwyddiannus ai peidio.

Dim ond ar ôl i leoedd gael eu dyrannu ar gyfer ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau y caiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu geisiadau sy'n parhau'n anghyflawn eu prosesu, a gall hyn gynyddu'r posibilrwydd o beidio sicrhau lle yn yr ysgol. Caiff unrhyw geisiadau hwyr a dderbynnir eu cadw a'u prosesu gyda'i gilydd erbyn diwedd y mis calendr yn dilyn eu derbyn, unwaith y bydd y dyddiad cynnig perthnasol wedi mynd heibio.

Fodd bynnag, dim ond os y'u cefnogir gan lythyr yn rhoi rhesymau eithriadol dros fod yn hwyr a dim ond os y'u derbynnir cyn y cynigir y lleoedd y caiff ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cyflwyno a gyhoeddwyd eu hystyried gyda'r rhai a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau. Gellir diffinio rhesymau eithriadol fel amgylchiadau yn cynnwys salwch difrifol rhiant unigol, newydd symud i'r ardal, neu gyrraedd o dramor wedi golygu nad oedd yn bosibl cyflwyno'r cais erbyn y dyddiad cau.

Nid yw gwneud cais a rhoi'r dystiolaeth berthnasol i gefnogi yn gwarantu derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair. Caiff pob cais ei ystyried yn unigol a chydymffurfir ag ef lle bynnag sy'n bosibl. Fodd bynnag, os derbynnir mwy o geisiadau na nifer derbyn yr ysgol, gall fod yn rhaid gwrthod y cais. Yn yr amgylchiadau hyn mae derbyn yn seiliedig ar y meini prawf a gyhoeddwyd gan yr ysgol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd. Mae'n bwysig nodi y rhoddir yr ystyriaeth gyntaf ym mhob achos i rieni sy'n mynegi dewis cyntaf am Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair ac felly mae'n bwysig sicrhau eich bod yn rhoi ystyriaeth gywir i'ch rhestr o ddewisiadau cyn gwneud cais. Cyn penderfynu gwneud cais am le yn yr ysgol bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol gan na fyddwch o reidrwydd yn gymwys am gymorth cludo.

Nid oes gan benaethiaid ysgol yr awdurdod i roi arwydd i rieni o ganlyniad eu cais na dweud wrthynt y cafodd eu plentyn le yn yr ysgol cyn y gwnaed cynnig o le yn ffurfiol gan y Corff Llywodraethu.

Derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair/Ceisiadau Hwyr

Y Corff Llywodraethu yw awdurdod derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair.

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymgynghori'n flynyddol ar ei drefniadau derbyn a lle'n bosibl yn ceisio dilyn yr un amserlenni derbyn ag awdurdodau cyfagos. Mae'r nifer derbyn ar gyfer ysgolion yn deillio o gapasiti ffisegol yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu disgyblion, yn defnyddio fformiwla a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol yw 30.

Mae Ysgol Gatholig Santes Fair yn gwasanaethu plwyfi Santes Fair Cas-gwent a Sant Paul Cil-y-coed.

Mae plwyf Santes Fair yn cynnwys Cas-gwent i gyd, Bulwark, Thornwell ac ardaloedd i'r gogledd yn cynnwys Itton, Devauden, Llanarfan, Tyndyrn a Llandogo, ac i'r dwyrain i Tutshill a Sedbury. Mae Plwyf Sant Paul yn cynnwys Porthysgevin, Cil-y-coed, Gwndy, Magwyr, Caerwent, Penhow a Langstone.

Ffurflenni Cais, Dogfennau a Thystiolaeth o Breswyliaeth

Y disgwyliad yw y caiff plant eu haddysgu yn eu grŵp blwyddyn cronolegol os nad oes amgylchiadau eithriadol. Oherwydd hyn mae'n rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan lungopi o dystysgrif geni'r plentyn, cerdyn meddygol GIG neu basbort dilys.

Mae'r Awdurdod Derbyn hefyd angen tystiolaeth o breswyliaeth i gefnogi'r holl geisiadau, ac i hyn o beth mae'n rhaid i rieni/gofalwyr gyflwyno copi o'u cyfriflen Dreth Gyngor am y flwyddyn gyfredol er mwyn dilysu eu cyfeiriad cartref.

Wrth brosesu eich cais, bydd yr Awdurdod Derbyn yn defnyddio'r cyfeiriad lle'r ydych chi a'ch plentyn yn byw ar y dyddiad cau perthnasol ar gyfer eich cais, a'ch cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau ar ôl cyflwyno eich cais. Gall newidiadau o'r fath effeithio ar ganlyniad eich cais. Bydd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn defnyddio'r cyfeiriad a roddwch er mwyn penderfynu os yw'ch plentyn yn gymwys am 'gludiant cartref i'r ysgol' am ddim yn unol â pholisi cludiant cyfredol y Cyngor.

Bydd angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais os ydych wedi nodi i'ch plentyn gael bedydd Catholig neu ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig. Gall tystiolaeth gynnwys Tystysgrif Bedydd neu gadarnhad ysgrifenedig gan offeiriad. Os ydych wedi nodi fod eich plentyn o ffydd heblaw Catholig, bydd angen cyflwyno tystiolaeth gyda'ch cais. Gall tystiolaeth gynnwys llythyr cefnogaeth gan Weinidog neu Arweinydd Ffydd. Ar gyfer ymgeiswyr Cristnogol, dylid darparu Tystysgrif Bedydd lle bynnag sy'n bosibl.

Lle ceisir mynediad i'r ysgol ar sail feddygol, yna mae'n rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan lythyr gan yr ymgynghorydd meddygol sy'n goruchwyllo gofal y plentyn. Ni fydd llythyrau gan feddygon teulu neu swyddogion iechyd eraill yn ddigonol.

Caiff honiadau o hawliadau twyllodrus eu hymchwilio a gall lleoedd gael ei diddymu os yw rhieni yn wybyddus wedi rhoi gwybodaeth heb fod yn wir er mwyn cael mantais ysgol neilltuol na fyddai ganddynt hawl iddi fel arfer.

Er mwyn cydymffurfio gyda'r Cod Derbyn, mae'n rhaid caniatáu i rieni fynegi dewis am ail neu hyd yn oed drydydd dewis ysgol. Felly gall fod angen i rieni/gofalwyr lenwi ffurflen gais ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair a hefyd ffurflen gais Cyngor Sir Fynwy os yw'r ysgolion a ddewisir yn cynnwys ysgol gymunedol a gynhelir.

Dylai ymgeiswyr nodi ar gyfer diben prosesu ceisiadau am leoedd ysgol y gall yr wybodaeth a roddant ar eu ffurflen gais gael ei rhannu gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg, iechyd a lles plant ysgol, yn cynnwys awdurdodau derbyn eraill.

Mae gan rieni/gofalwyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle yn yr Ysgol.

Gohirio Mynediad

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau'r ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Yn unol â hyn, bydd y Corff Llywodraethu yn caniatáu opsiwn i rieni ohirio mynediad eu plentyn i'r dosbarth Derbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Effaith hynny yw y caiff y lle ei gadw ar gyfer y plentyn ac na fydd ar gael i'w gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag ni fyddai'r rhieni'n medru gohirio mynediad tan ar ôl dechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd eu plentyn yn bump oed, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais ar ei chyfer.

Sut y dyrennir lleoedd

Mae gan rieni/gofalwyr hawl i fynegi dewis i'w plentyn gael eu derbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o gronfeydd cyhoeddus. Caiff derbyn i ysgolion ei wneud yn unol â dewis y rhieni, os oes lleoedd ar gael, a chaiff pob cais ei ystyried yn unigol. Lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, byddir yn dal i ystyried ceisiadau dewis ond gweithredir y blaenoriaethau a osodwyd gan y Corff Llywodraethu. Caiff y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd eu gweithredu yn nhrefn blaenoriaeth wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i'r ysgol.

Meini prawf ar gyfer derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd 2024-2025.

Mae'n bwysig nodi y rhoddir yr ystyriaeth gyntaf ym mhob achos i rieni sy'n mynegi dewis cyntaf ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair ac felly mae'n bwysig sicrhau eich bod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r rhestr ddewis cyn cyflwyno cais.

Y nifer derbyn a nodwyd ar gyfer yr ysgol yw 30. Pan fo nifer y ceisiadau yn gyfartal â neu'n llai na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd pob cais yn llwyddiannus. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu'r meini prawf dilynol ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hynny.

Pan enwir Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n ddyletswydd ar y Corff Llywodraethu i dderbyn y plentyn i'r ysgol cyn gweithredu'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gyfer y ceisiadau a ddaeth i law.

Bydd plant sydd â'r ysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Angen Addysgol Arbennig yn cael blaenoriaeth dros bob plentyn. Gweithredir y meini prawf mewn trefn.

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) neu a fu'n flaenorol yn blant yn derbyn gofal ac a fedyddiwyd fel Catholigion neu a gafodd eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig (gweler *1 ar y dudalen gyferbyn) yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb y lleoliad.

Dylid nodi y rhoddir y flaenoriaeth uchaf i siblingiaid ym mhob un o'r categorïau dilynol (2-5).

(Siblingiaid: caiff brodyr a chwiorydd, p'un ai'n hanner, llawn, llys, mabwysiedig neu faeth eu hystyried yn berthnasol lle maent yn byw ar yr un aelwyd a lle bydd plentyn hyn yn dal i fod wedi cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu. Lle mae mwy nag un achos o'r fath, rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny sydd agosaf mewn oedran i'r siblingiaid sydd eisoes yn mynychu'r ysgol, fel ar y dyddiad derbyn).

Rhoddir y flaenoriaeth uchaf yng nghategoriâu 2-5 i blant genedigaeth luosog.

- Plant a gafodd eu bedyddio fel Catholigion neu a gafodd eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig (gweler nodyn *1).
- Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) neu a fu'n flaenorol yn blant yn derbyn gofal yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb y lleoliad.

4. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad am addysg Gatholig (gweler nodyn *2).
 5. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad am addysg Gatholig (gweler nodyn *2).
 6. Pob plentyn arall y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad am addysg Gatholig.
- *1. Gofynnir i geisiadau ar gyfer plant sydd i'w hystyried dan faen prawf 1 neu 2 uchod roi tystiolaeth o fedyddio neu dderbyn i'r Eglwys Gatholig. Dylai tystiolaeth gynnwys cadarnhad ysgrifenedig neu ardystiad o fedydd/derbyn i'r Eglwys Gatholig.
- *2. Gofynnir i geisiadau ar gyfer plant i gael eu hystyried dan faen prawf 4 neu 5 roi llythyr cefnogi gan eu Gweinidog neu Arweinydd Ffydd. Dylid rhoi Tystysgrif Fedyddio lle bynnag sy'n bosibl ar gyfer ymgeiswyr Cristnogol.

Os yn gyfartal:

Lle mae lleoedd ar gael i rai ond nid yr holl ymgeiswyr mewn unrhyw gategori neilltuol yna rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny sydd â'u cyfeiriad cartref agosaf at glwyd yr ysgol a fesurir fel y "llwybr cerdded byrrach a mwyaf diogel sydd ar gael, gyda chwmni fel bo angen" rhwng prif fynedfa/clwyd flaen y cartref a phrif glwyd yr ysgol ar Hen Heol Bulwark. Caiff pellteroedd o'r fath eu mesur gan ddefnyddio Google Maps (opsiwn cerdded).

Mae gan rieni hawl apêl statudol yn erbyn peidio derbyn plentyn i'r ysgol. Caiff hyn ei glywed gan Banel Apêl Annibynnol na fydd gan y Corff Llywodraethu a Phennaeth yr ysgol unrhyw ran ynddo. Rhoddir manylion y broses apelio i rieni pan gânt eu hysbysu y gwrthodwyd lle i'w plentyn (neu os ydynt yn gofyn am wybodaeth o'r fath gan y Corff Llywodraethwyr).

Nodiadau:

Bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r man lle mae'r plentyn yn byw'n barhaol am fwyaf yr wythnos ysgol ar y dyddiad cau a nodir ar gyfer ceisiadau. Byddai hyn fel arfer yr un cyfeiriad â'r person sydd â chyfrifoldeb riant dros y plentyn ac sy'n brif ofalwr. Lle mae plentyn yn treulio'r un faint o amser gyda'r ddau riant/gofalwr, ystyrir mai man preswyl y person sy'n derbyn y budd-dal plant yw cartref y plentyn. Gall fod angen tystiolaeth i gefnogi hyn.

Mae'n rhaid i geisiadau ar angen meddygol gael eu cefnogi gan adroddiad ymgynghorydd meddygol, a geir gan y rhieni, yn nodi angen meddygol y plentyn sy'n mynychu'r ysgol. Gofynnir i chi nodi na chaiff adroddiadau gan feddygon teulu eu derbyn ar gyfer y diben hwn.

Siblingiaid yw: brodyr a chwiorydd, p'un ai'n hanner, llawn, llys, mabwysiedig neu faeth a gaiff eu hystyried yn berthnasol pan maent yn byw ar yr un aelwyd a lle bydd plentyn hyn yn dal i fod wedi cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu.

Gwybodaeth berthnasol arall - Pellter cartref o'r ysgol:

O fewn pob set o feini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd, os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw gategori yn uwch na'r nifer derbyn a nodwyd, caiff blaenoriaeth ei seilio ar y rhai sy'n byw agosaf at y dewis ysgol. Caiff y pellter hwn ei fesur fel y "llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, gyda chwmni fel bo angen" rhwng y cartref (a fesurir i linell ganol y ffordd fabwysiedig yn union tu allan i flaen man preswylio arferol y plentyn) a chlwyd agosaf yr ysgol. Bydd yr ysgol yn penderfynu'r llwybr fel yr amlinellir uchod yn defnyddio ei feddalwedd llwybrau penodol ei hun, a fesurir fel y'u cofnodwyd gan Google Maps (opsiwn cerdded). Dyma'r unig ddull mesur a ddefnyddir gan yr ysgol er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb ar gyfer pob ymgeisydd.

Lle mae dau neu fwy o ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer y lle olaf sydd ar gael, a bod y cyfrif pellter cartref i'r ysgol yr un fath, bydd Cyngor Sir Fynwy yn cynnal asesiad ychwanegol o'r pellter rhwng llinell ganol y ffordd fabwysiedig a drws blaen y tŷ.

Plant personél Lluoedd Arfog

Penderfynir fod plant personél lluoedd arfog y Deyrnas Unedig sy'n symud i Sir Fynwy yn cyflawni'r meini prawf preswyliaeth ar gyfer yr ysgol gynradd berthnasol os anfonir tystiolaeth swyddogol o'r swydd gyda'r ffurflen gais yn nodi dyddiad dychwelyd pendant gyda chadarnhad o'r cyfeiriad nesaf lle'n bosibl.

Plant a gartrefir drwy asiantaethau trais domestig

Penderfynir fod plant a gartrefir dros dro dan warchodaeth asiantaethau trais domestig yn cyflawni'r meini prawf preswyliaeth ar gyfer yr ysgol gynradd berthnasol os anfonir llythyr swyddogol gan yr asiantaeth berthnasol gyda'u ffurflen gais.

Rhestri aros ar gyfer ysgolion sydd â mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael

Trosglwyddo Cyfnod Sylfaen - Cyfnod Allweddol 2

Yn ystod y broses drosglwyddo cyfnod, pe gwrthodid lle i'ch plentyn yn eich dewis ysgol(ion), bydd enw eich plentyn yn parhau ar restr aros ar gyfer yr ysgol hon tan 30 Medi yn y flwyddyn y gwneir y cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd. Nid yw rhestr aros yn rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Cysylltir â rhieni cyn 30 Medi a gofynnir iddynt gadarnhau p'un ai ydynt yn dymuno aros ar y rhestr aros am weddill y flwyddyn academaidd, a gellir gwneud cais newydd.

Derbyn neu drosglwyddo o fewn y flwyddyn

Lle gwrthodir cais am drosglwyddo o fewn y flwyddyn, bydd enw'r plentyn yn parhau ar restr aros ar gyfer y ddewis ysgol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd (31 Awst) pan wneir y cais, a gellir gwneud cais newydd bryd hynny. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd. Nid yw rhestr aros yn rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

Rhai rhesymau eraill pam y gallwn wrthod derbyn plant

Er bod gan rieni yr hawl i fynegi dewis i'w plentyn gael ei derbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o gronfeydd cyhoeddus, mae rhesymau pam y gall fod yn rhaid gwrthod y dewis hwnnw gan fod yn rhaid i'r Awdurdod Derbyn hefyd roi ystyriaeth wrth benderfynu ceisiadau i:

- Y cynllun maint dosbarth babanod sy'n ymroi i sicrhau na fydd unrhyw blentyn 5, 6 neu 7 oed mewn dosbarth o fwy na 30 disgybl ar gyfer pob athro cymwysedig. Mae'r terfyn statudol o 30 disgybl ar gyfer dosbarthiadau babanod yn weithredol i'r dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
- Unrhyw ffactorau eraill a all amharu ar ddarparu addysg effeithiol a/neu ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Eithriadau maint dosbarth

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Derbyn gyfyngu maint dosbarthiadau babanod i ddim mwy na 30 disgybl, a hefyd i sicrhau lle'n bosibl nad oes mwy na 30 o ddisgyblion mewn dosbarthiadau iau. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn 'disgyblion eithriedig') a all ganiatáu mwy na 30 o ddisgyblion mewn dosbarth. Caiff y disgyblion hyn eu hamlinellu'n benodol yn y Cod Derbyn Ysgolion statudol. Bydd disgyblion a eithrir yn parhau felly, unwaith y'u derbyniwyd, am weddill eu cyfnod mewn dosbarth babanod neu nes bod niferoedd dosbarth yn gostwng a gellir eu trefnu i gydymffurfio gyda'r terfyn ar faint dosbarthiadau babanod. Mae'n rhaid trefnu dosbarthiadau er mwyn cydymffurfio gyda'r terfyn lle bynnag sy'n bosibl.

Apeliadau Ysgolion Cymorth Gwirfoddol

Mae gan rieni hawl statudol i apelio yn erbyn gwrthodiad gan y Corff Llywodraethu i dderbyn eu plentyn, a dylent roi eu rhesymau dros apelio mewn ysgrifen yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y llythyr penderfyniad. Caiff apeliadau eu clywed gan y Panel Apêl Annibynnol ac ni fydd gan y Corff Llywodraethu na'r Pennaeth unrhyw rôl yn hynny. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn rhwymo pob parti.

CWESTIYNAU CYFFREDIN MEWN PERTHYNAS Â DERBYNIADAU

Sut ydw i'n penderfynu i ba ysgol y dylwn anfon fy mhlentyn?

Penderfyniad personol yw hwn. I'ch cefnogi wrth wneud eich dewisiadau, mae'r llyfryn hwn yn cynnwys manylion yr ysgolion yn Sir Fynwy. Mae nosweithiau agored yn ffordd wych o gael gwybod am ysgol yn ogystal ag ymweld â gwefannau'r ysgolion. Un ffordd o weld y rhain yw drwy wefan Sir Fynwy www.monmouthshire.gov.uk Gellir gweld canlyniadau arolygiadau Estyn diweddar o ysgolion yn www.estyn.gov.uk

Os ydw i'n byw yn nalgylch fy hoff ddewis ysgol, a fyddaf yn sicr o gael lle yno?

Nid yw Cyngor Sir Fynwy yn sicrhau lleoedd i'r plant hynny sy'n byw yn nalgylch ysgol, ond mae preswyllo yn y dalgylch yn ymddangos yn rhan o'n meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd.

Beth yw'r anawsterau posibl os byddaf yn ymgeisio am ysgol heblaw fy ysgol ddalgylch?

Mae angen i chi ystyried yr anawsterau sy'n bosibl os byddwch yn ymgeisio am ysgol ar wahân i'ch ysgol ddalgylch.

Er enghraifft, os bydd eich cais am le mewn ysgol heblaw'r ysgol ddalgylch yn llwyddiannus, ni fydddech yn gymwys am gludiant rhad ac am ddim, hyd yn oed os ydych yn byw dros filltir a hanner i ffwrdd o'r ysgol honno.

Sylwer: Os byddwch yn gwneud cais i ysgol heblaw eich ysgol ddalgylch, ac mai honno hefyd yw eich ysgol agosaf, efallai byddwch yn gymwys am gludiant rhad ac am ddim o dan y meini prawf cymhwyso arferol - gweler yr adran gludiant.

Os dymunwch wneud cais am ysgol y tu allan i'ch dalgylch, ystyriwch hefyd roi mwy nag un dewis ar eich cais rhag ofn y bydd eich cais am yr ysgol hon yn aflwyddiannus.

Beth yw ystyr Nifer Derbyn?

Bydd gan bob ysgol ei Nifer Derbyn ei hun.

Y Nifer Derbyn yw'r terfyn uchaf ar gyfer derbyniadau i'r grŵp blwyddyn, sy'n galluogi'r ysgol i barhau i fodloni anghenion y disgyblion yn ddigonol gyda'r lle a'r adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol. Byddai torri'r Nifer Derbyn yn rhoi pwysau pellach ar ddarparu addysg effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon yn yr ysgol.

Mae'r Nifer Derbyn yn deillio'n uniongyrchol o'r ardal mewn ysgol a ddynodir fel manau addysgu a'r ardaloedd adnodd sydd ar waith i gefnogi'r addysgu.

Y canllawiau a ddefnyddir i gyfrif y rhif derbyn yw "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru", cylchlythyr rhif 021/2011 Llywodraeth Cymru;

Os nad ydw i'n byw yn Sir Fynwy, a all fy nghais gael ei ystyried am le mewn Ysgol yn Sir Fynwy?

Gall, mae ceisiadau am dderbyn disgyblion sy'n byw y tu allan i'r sir yn cael eu hystyried yn gyfartal.

Mae ffurflenni cais ar gael gan yr Awdurdod Lleol rydych yn talu eich treth gyngor iddo. Dylid dychwelyd y ffurflen i'r awdurdod hwnnw wedyn a bydd yn anfon y ffurflen i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr. Gall hefyd fod yn briodol anfon llythyr i'r Uned Mynediad Ysgolion a Myfyrwyr i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'ch cais am le.

A gaf fi ymgeisio i Sir Fynwy ac Awdurdod Lleol cyfagos ar yr un pryd?

Na chewch, mae angen i chi gael eich ffurflen gan yr Awdurdod rydych yn talu eich treth gyngor iddo. Fodd bynnag, ar y ffurflen hon gallwch nodi dewisiadau ysgol o nifer o Awdurdodau Lleol'. Byddant wedyn yn anfon y cais at yr Awdurdod Lleol perthnasol. Dylai eich Awdurdod Lleol eich cynghori am yr amserlen ar gyfer anfon ceisiadau ymlaen.

Yr unig eithriad i'r uchod yw os yw'r ysgol a ffafrwch wedi'i lleoli o fewn awdurdod lleol Casnewydd. Yn yr achos yma, mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd.

Os byddaf yn ymgeisio am le mewn Ysgol annibynnol, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr, neu Ysgol y tu allan i'r Sir, a fydd fy nghais am Ysgol yn Sir Fynwy yn cael ei beryglu?

Mae ffurflenni cais yn gwahodd rhieni i fynegi hyd at dri dewis, ac mae'n bwysig cynnwys eich cais i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr neu i Ysgol Annibynnol. Bydd pob dewis yn cael ei ystyried yn gyfartal yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir gan yr Awdurdod pan fydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael. Bydd eich dewis cyntaf yn cael ei gynnig os oes modd bodloni un neu ragor o ddewisiadau.

Beth na phetawn i eisïau'r lle rhagor?

Dylech ysgrifennu neu anfon e-bost i gadarnhau hyn. Eto, nodwch enw, dyddiad geni a chyfeiriad y plentyn. Mae angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn unrhyw le a gynigir gan y gallai methu gwneud hynny olygu y caiff y cynnig ei ddileu.

Beth petawn i'n colli'r dyddiad cau?

Ymdrinnir yn gyntaf â'r holl geisiadau cyflawn a geir erbyn 5pm ar 13 Tachwedd 2022 (Uwchradd) a 5pm ar 9 Ionawr 2024 (Cynradd). Ni fydd unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau hynny a gyrhaeddodd mewn pryd wedi cael eu prosesu. Os byddwch yn methu llenwi ffurflen mewn pryd, efallai y byddwch yn llai tebygol o gael eich dewis cyntaf.

Pam mae angen i mi gyflenwi tystiolaeth ychwanegol i gefnogi fy nghais?

Bydd yr Awdurdod yn cael at ddata'r Dreth Gyngor er mwyn dilysu eich cyfeiriad cartref. Er mwyn in ni gael gwneud hyn, bydd angen i chi ddarparu eich rhif cyfeirnod Treth Gyngor ar y cais.

Os ydych chi'n symud tŷ, bydd angen i chi roi tystiolaeth o ran cytundeb Cyfnewid Contractau neu Gytundeb Tenantiaeth tymor hir. Bydd angen i ni gael y dystiolaeth hon cyn y dyddiad cau.

Pwy sy'n gymwys am Gludiant Rhad ac am Ddim Rhwng y Cartref a'r Ysgol?

Mae disgyblion yn gymwys os ydynt rhwng 5 ac 16 oed – o'r dosbarth derbyn hyd at, a chan gynnwys, Blwyddyn 11. I fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol mae'n rhaid i blentyn fynd i'w ysgol dalgylch neu ysgol dalgylch addas agosaf (gan gynnwys Cyfrwng Cymraeg/Enwadol) a rhaid i'r ysgol honno fod y tu hwnt i feini prawf pellter MCC). Ni ddarperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol oni bai bod dysgwr yn bodloni'r ddau faen prawf. Y meini prawf pellter yw 1.5 milltir neu fwy ar gyfer plant oed Ysgol Gynradd a 2 filltir neu fwy ar gyfer plant oed Ysgol Uwchradd. Mae cludiant ar gyfer plant 4 oed yn ddewisol a bydd yn cael ei ddarparu dim ond os yw dysgwr yn mynychu ysgol gynradd a bod y rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig bod gyrrwr a/neu gynorthwydd teithwyr wedi'i awdurdodi i gynorthwyo eu plentyn i ddefnyddio gwregysau diogelwch.

Sut y caiff y pellter ei gyfrif?

Caiff y pellter ei fesur yn electronig, sy'n defnyddio'r llwybr byrraf rhwng ffiniau eich cyfeiriad cartref (h.y .gwaelod eich llwybr neu dramwyfa) a phrif fynediad i'r ysgol.

Os yw fy mhientyn yn gymwys am gludiant rhad ac am ddim rhwng y cartref a'r ysgol – o ble bydd yn cael ei gasglu?

Mae'n bosibl na fydd yn pob dysgwr gael ei gasglu o'u cyfeiriad cartref ac felly, bydd angen i rieni fynd â'u plant a'u casglu o fannau codi a gollwng dynodedig. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na milltir o dan amgylchiadau arferol.

Beth yw llwybr cerdded nad yw ar gael?

Asesir pob llwybr cerdded nad yw ar gael yn seiliedig ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Diogelwch Ffyrdd Prydain Fawr. Bydd asesiadau llwybrau cerdded yn cael eu cynnal gan Swyddog Diogelwch Ffyrdd y Cyngor neu berson arall â chymwysterau addas a fydd yn ystyried y ffactorau risg traffig a chymdeithasol. Wrth gynnal yr asesiadau, tybir y bydd oedolyn gyda phob plentyn oed cynradd.

Os oes gan fy mhlentyn fwy nag un cartref, a fydd cymorth teithio yn cael ei roi i'r ddau?

Os oes gan ddysgwyr fwy nag un preswylfa, mae'n medru gwneud cais am gludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer hyd at ddau gartref sydd agosaf at eu hysgol. Bydd angen i'r dysgwr fodloni'r meini prawf cymhwysedd o hyd o ran pellter, oedran a gallu fel yr amlinellir uchod. Bydd angen tystiolaeth o'r preswylfa deuol gan y ddau riant.

Os byddaf yn symud cartref i gyfeiriad y tu allan i'r ysgol ddalgylch, a fydd cludiant rhad ac am ddim yn cael ei ddarparu?

Na fydd. Os byddwch yn symud cartref i gyfeiriad y tu allan i'r ysgol ddalgylch, ni fydd eich plentyn yn cael cludiant rhad ac am ddim, oni bai bod eich plentyn yn astudio ym mlwyddyn 10 neu 11 a bod gwasanaethau contract presennol ar gael.

A fydd costau teithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael eu had-dalu?

Na fyddant. Nid yw costau teithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael eu had-dalu.

Pa fath o gymorth cludiant sydd ar gael?

Mae'r Awdurdod yn penderfynu'r trefniadau cludiant mwyaf addas, gan gofio pob ffactor perthnasol, gan gynnwys cost. Gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol, mae cludiant yn cael ei drefnu fel arfer drwy fws contract, bws gwasanaeth neu dacsï, er bod yn rhaid gwneud trefniadau unigol eraill weithiau. Mae cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ond ni chaiff ei ddarparu ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau na gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys brecwast a chlybiau ar ôl ysgol.

A all plant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim brynu seddi gwag ar fysiau ysgol?

Mae'r dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim yn gallu gwneud cais am deithio rhatach.

Bydd seddau rhatach yn cael eu dyfarnu os oes sedd wag yn bodoli; nid oes goblygiadau ariannol i'r Cyngor; nid yw hyn yn tarfu ar y llwybr cludiant a bod y dysgwr yn cael ei gludo i fan codi a gollwng penodedig fel y pennir gan y darparwr trafnidiaeth. Nid yw seddau rhatach yn sicr o gael eu dyfarnu o ddechrau'r flwyddyn academaidd; fodd bynnag, bydd pob dysgwr yn cael gwybod os oes sedd ar gael o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r flwyddyn academaidd. Os gwneir cais yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod os oes sedd ar gael o fewn 10 diwrnod gwaith. Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod y plentyn/plant yn cael eu cludo i ac o'r ysgol tra bod eu cais yn cael ei ystyried. Gall y man codi a gollwng fod fwy na milltir o gartref y dysgwr ond heb fod ymhellach nag 1.5 milltir ar gyfer dysgwyr oed cynradd a 2 filltir ar gyfer uwchradd. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hawdurdodi i ddefnyddio lleoliad rhatach nes bod y Tîm Comisiynu wedi'i gadarnhau'n swyddogol yn ysgrifenedig. Bydd ceisiadau ar gyfer dysgwyr Ôl-16 yn cael blaenoriaeth ar gyfer seddi rhatach. Os bydd seddi gwag yn parhau, bydd seddi consesiynol yn cael eu dyfarnu ar sail pryd y derbyniwyd y ffurflen gais. Ar gyfer un neu fwy o geisiadau a dderbynnir ar yr un dyddiad, y dysgwr y mae ei gyfeiriad cartref yn mesur y pellter cerdded pellaf i'r sefydliad addysgol fydd yn cael blaenoriaeth. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen tynnu sedd gonsesiwn yn ôl, os caiff y sedd ei thynnu'n ôl byddwn yn rhoi 10 diwrnod gwaith o rybudd a bydd yn ofynnol i rieni wneud trefniadau eraill. Bydd disgyblion y dyrennir seddau rhatach iddynt hanner ffordd drwy'r tymor yn cael eu codi fesul wythnos am nifer yr wythnosau sy'n weddill yn y tymor hwnnw. Gellir talu mewn rhandaliadau misol trwy archeb sefydlog drwy gysylltu â'r Tîm Mân Ddyledwyr ar ôl derbyn anfoneb. Ni fydd ceisiadau am gludiant rhatach yn cael eu hystyried ar gyfer dysgwyr sydd ag ôl-ddyledion am gludiant rhatach blaenorol. Pan fydd yr ôl-ddyledion yn cael eu talu, bydd y dysgwr wedyn yn dod yn gymwys i deithio'n rhatach os oes sedd ar gael. Bydd ad-daliadau yn daladwy o'r dyddiad y bydd y Tîm Comisiynu yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y rhiant eu bod yn dymuno canslo sedd eu plentyn. Ni fydd ad-daliadau ôl-weithredol yn cael eu gwneud.

A yw cludiant yn cael ei ddarparu yn ôl ac ymlaen o ysgolion annibynnol?

Nac ydyw. Nid yw cludiant rhad ac am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion annibynnol.

Beth sy'n digwydd os yw plentyn yn tarfu ar y cludiant a ddarperir?

Mae diogelwch pob dysgwr sy'n teithio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol yn hollbwysig. Os bydd dysgwr yn camymddwyn, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r ddarpariaeth cludiant yn ôl. Pryd bynnag y bydd y Tîm Comisiynu yn cael gwybod am ddigwyddiad ar gludiant o'r cartref i'r ysgol byddant yn cysylltu ag ysgolion a'r Gyfarwyddiaeth Addysg i ymchwilio i'r digwyddiad. Lle bo angen, bydd llythyrâu rhybudd a/neu ohebiaeth e-bost yn cael eu hanfon at rieni dysgwyr sy'n camymddwyn, yn achosi difrod i gerbyd, yn bygwth neu'n achosi anaf i deithwyr neu yrwy / cynorthwyrwyr teithwyr neu'n ymddwyn mewn modd a allai beryglu diogelwch. Gall cludiant o'r cartref i'r ysgol gael ei dynnu oddi ar y dysgwr dros dro neu'n barhaol yn unol â Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn cadw'r hawl i naill ai atal neu ganslo cludiant i ddysgwyr lle mae'r gyrwyr neu gynorthwyrwyr teithwyr wedi cael eu cam-drin yn eiriol neu wedi dioddef ymosodiad corfforol gan rieni neu warcheidwaid. Mewn achosion o'r fath bydd y dioddefwyr yn cael eu hannog i roi gwybod i'r heddlu ac unrhyw awdurdodau angenrheidiol eraill am unrhyw gamau o'r fath. Pan fydd cludiant yn cael ei dynnu'n ôl, rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol.

Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf bryder neu gŵyn am y gwasanaeth cludiant ysgol?

Dim ond cwynion a dderbynnir yn ysgrifenedig gan rieni neu ddysgwyr fydd yn cael eu hymchwilio gan y Cyngor. Dylid danfon cwynion at: passengertransportunit@monmouthshire.gov.uk

Bydd yr Uned Gomisiynu yn cydnabod y gŵyn o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Efallai y bydd adegau pan fydd angen i ni gymryd mwy na 10 diwrnod gwaith a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn yn digwydd ac yn rhoi amserlen o ran pryd y byddwch yn derbyn ymateb. Os bydd cwyn yn cael ei chadarnhau, bydd camau priodol yn cael eu cymryd i unioni'r mater cyn gynted ag sy'n ymarferol.

A oes uchafswm o ran hyd y daith?

Mae'r Awdurdod yn ymdrechu i gadw amseroedd teithio mor isel â phosibl. Yn anffodus, o ystyried yr amgylchedd gwledig yn Sir Fynwy, gall rhai teithiau fod yn fwy nag awr, ac yn enwedig os ydych yn mynychu ysgol enwadol y tu allan i'r ardal.

Rydym yn cynghori mai dyma'r polisiâu cyfredol a chânt eu hadolygu'n flynyddol, a bydd unrhyw newidiadau i'r polisi yn cael eu rhannu a'u hysbysebu.



“Ar gael i Grwpiau Ysgol a Chymunedol”

- Cerbydau 53 - 70 sedd
- Gwregysau sedd 3 Pwynt a CCTV
- Hygyrchedd Llawr Isel
- Gyrwyr DBS Estynedig
- Cydymffurfio â LEZ

☎ 01633 644792

✉ privatehire@monmouthshire.gov.uk

Beth os oes gan fy mhlentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Gweithredwyd deddfwriaeth newydd (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] 2018) ym mis Medi 2021. Mae hyn yn golygu fod y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' wedi disodli'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' o fis Medi 2021 ymlaen. Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol, y Cynllun Datblygu Unigol i gymryd lle'r datganiad statudol presennol o angen addysgol arbennig a chynlluniau anstatudol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion. Bydd y ddwy system (Trawsnewid AAA ac ADY) yn cydreddeg tan fis Medi 2024.

Er bod y diffiniad o'r term newydd ADY yn debyg iawn i'r diffiniad presennol o AAA, cafodd yr ystod oedran ei ymestyn i 0-25. Mae'r Ddeddf yn dweud bod gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd, sy'n galw am ddarpariaeth addysg ychwanegol. Mae'r diffiniad o ADY yn cynnwys dysgwyr y mae eu hanhawster dysgu neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol. Dylai disgyblion sydd ag angen meddygol nad yw'n effeithio ar eu dysgu gael eu cefnogi drwy Gynllun Anghenion Cefnogi Gofal Iechyd.

Mae'n bwysig cydnabod fod plant yn sicrhau cynnydd ar wahanol gyflymder. Gall eu hysgolion lleol gyflawni anghenion dysgu bron bob plentyn gyda ADY. Mae gan bob ysgol Gydlynnydd ADY a Llywodraethwr ADY sydd, gyda phennaeth yr ysgol a'r staff, yn gyfrifol am sicrhau y caiff anghenion dysgu ychwanegol a gwahanol plant ADY eu dynodi a'u diwallu.

Ni fyddai gan blentyn neu berson ifanc ADY os gellid trin eu diffyg cynnydd neu anawsterau drwy addysgu gwahaniaethol, bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc angen dull gwahaniaetol mewn rhyw agwedd o'u haddysg ar ryw amser. Nid yw addysgu gwahaniaethol ohono'i hun yn ffurfio Darpariaeth Dysgu Ychwanegol. Mae DAA yn cyfeirio at ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol, sydd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynigir fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob ysgol ddarparu cynllunio unigol ychwanegol, adnoddau a chymorth i blant ag ADY. Gall ysgolion yn Sir Fynwy gael cymorth a chynghor gan wasanaethau addysgol arbennig i blant â namau synhwyrdd, anawsterau cyfathrebu neu anawsterau llythrennedd penodol. Cefnogir ysgolion hefyd gan Seicolegwyr Addysg a'r Tim Cefnogi Addysg (EST). Gall ysgolion wneud cais am gynghor allgymorth arbennig a gofyn hefyd am gymorth gan arbenigwyr yn y gwasanaeth iechyd i'w helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.

Beth os na all yr ysgol leol ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol fy mhlentyn?

Ar gyfer plant neu bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth, efallai y bydd canolfan adnoddau arbennig (SRB) neu ysgol arbennig yn cael ei hystyried yn fwy priodol. Rhaid i Banel yr Awdurdod Lleol ystyried a chytuno ar blentyn yn mynychu unrhyw leoliad arbennigol.

Lle caiff fy mhlentyn ei (h)addysgu os oes ganddi/ganddo Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae'r awdurdod lleol yn anelu i gefnogi disgyblion gyda ADY o fewn eu hysgolion prif ffrwd lleol lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Os yw rhieni'n gofyn am leoliad ar gyfer eu plentyn mewn ysgol heblaw eu hysgol leol, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio cyflawni dewis y rhieni lle bynnag sy'n bosibl. Fodd bynnag, efallai na all yr awdurdod lleol wneud hynny os yw dewis rhieni yn anghydnaws gydag anghenion eu plentyn, yn groes i addysg effeithlon disgyblion eraill yn y dosbarth/ysgol neu os byddai'r ysgol yn arwain at wariant cyhoeddus afresymol. Yn Sir Fynwy, caiff mwyafrif y disgyblion gyda ADY eu haddysgu yn eu hysgolion lleol gyda phlant eraill o'r un oedran.

Beth os na all anghenion fy mhlentyn gael eu diwallu gan ysgol yn Sir Fynwy?

Ar gyfer yr ychydig iawn o blant na all eu anghenion gael eu diwallu o fewn Sir Fynwy, byddai'r awdurdod lleol yn cyllido lleoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir gan awdurdodau lleol eraill neu mewn ysgolion arbennig annibynnol. Byddai'n rhaid i leoliad mewn ysgol arbennig tu allan i'r sir gael ei gytuno gan banel derbyn yr awdurdod lleol lle mae'r ysgol arbennig.



Beth am gludiant?

Bydd yr Awdurdod yn ariannu cludiant i blant AAA dim ond:

- i fynd â phlentyn i'w ysgol leol neu'r ysgol addas agosaf os oes ganddo broblemau symudedd mawr, neu
- os yw plentyn yn mynychu darpariaeth anghenion arbennig (ysgol arbennig neu uned anghenion arbennig) nad yw ynghlwm wrth ei ysgol leol.

Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu i blant ag anghenion addysgol arbennig os yw'r plentyn yn mynychu ysgol oherwydd dewis y rhieni, h.y. ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf ym marn yr Awdurdod Lleol.

Ble gallaf gael cyngor am ddarpariaeth ADY?

Gallwch gysylltu â Gweinydddydd y Tîm ADY Ffôn: **01633-644512** neu edrych ar y dudalen ADY ar wefan Sir Fynwy:

www.monmouthshire.gov.uk/additional-learning-needs

Mae Cynllun Ysgol Iach Sir Fynwy yn rhan o Rwydwaith Cynlluniau Ysgol Iach Cymru a Rhwydwaith Ysgolion Iach Ewrop.

Mae'r cynllun yn cefnogi datblygiad ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd yn Sir Fynwy. Ysgol sy'n hyrwyddo iechyd yw ysgol sy'n mynd ati i hyrwyddo, amddiffyn ac ymgorffori iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol cymuned yr ysgol gyfan drwy gymryd camau cadarnhaol. Mae ysgolion yn cael eu hannog i weithio mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedol i gyflwyno negeseuon iechyd cyson i blant a phobl ifanc. Maent yn cynnwys meysydd pwnc iechyd fel: iechyd a lles meddyliol ac emosiynol; bwyd a ffitrwydd; datblygiad personol a pherthynas; defnyddio a chamddefnyddio sylweddau; yr amgylchedd, diogelwch a hylendid.

Mae pob un o ysgolion a gynhelir yn Sir Fynwy wedi cofrestru i gymryd rhan yn y cynllun.

Cynllun Cyn-ysgol iach

Mae hyn yn estyniad o'r cynllun ysgolion iach ac mae wedi ei anelu at ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol, yn cynnwys meithrinfeydd, grwpiau chwarae a Dechrau'n Deg. Cafodd ei gynllunio i gyd-fynd â a gwella fframweithiau cyfredol sydd eisoes yn eu lle o fewn lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar, gan ganolbwyntio ar nifer o feysydd pwnc iechyd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r

SallyAmos@monmouthshire.gov.uk (Healthy Schools Practitioner)

AdeleJones@monmouthshire.gov.uk (Healthy Preschools Practitioner)

Dilynwch ni ar Twitter @MonHealthySch @MonHSPSS



TÎM NYRSIO'R YSGOL

Pan fydd eich plentyn yn dod i'r ysgol, mae ei ofal yn trosglwyddo o'r ymwelydd iechyd i'r nyrs ysgol. Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol, mae nyrs yr ysgol ar gael i drafod unrhyw bryderon emosiynol a chorfforol a bydd yn cyfeirio at wasanaethau eraill os yn briodol.

Bydd twf pob plentyn derbyn yn cael ei fesur a'i olwg yn cael ei sgrinio fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru a'r Rhaglen Mesur Plant.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â thîm nyrsio ysgol Sir Fynwy ar:
Rhif ffôn Pwynt Mynediad Sengl - **01633 431685**

DIOGELU IECHYD EICH PLENTYN YN YR YSGOL: IMIWNEIDDIO

Cyn i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol, mae'n bwysig bod eu brechiadau'n cael eu diweddu fel eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag nifer o glefydau y gellir eu hatal drwy frechu. Bob blwyddyn, mae brechu yn arbed mwy o fywydau ledled y byd nag unrhyw ymyriad meddygol arall. Yng Nghymru, mae brechu yn fesur allweddol o ran cadw plant yn iach a rhoi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd.

**I gael mwy o wybodaeth ar frechiadau plentyndod ewch i'r wefan:
Brechiadau GIG a pryd i'w cael - GIG (www.nhs.uk)**

Mae brechiadau arferol i blant yn hynod effeithiol, yn ddiogel ac am ddim. Bydd brechiadau eraill yn cael eu trefnu drwy gydol oes eich plentyn. Pan fydd eich plentyn i fod i gael brechiad yn yr ysgol, byddwch yn cael llythyr gwybodaeth a ffurflen ganiatâd. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi, llofnodi a dychwelyd y ffurflen ganiatâd yn brydlon.

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LiveWell/vaccinations



Mae'r Awdurdod Lleol yn ymfalchïo mewn darparu ystod da o brydau bwyd iach a maethlon i gyflawni gofynion maeth plant sy'n tyfu a datblygu, ac wrth eu paratoi i fod y genhedlaeth nesaf o oedolion ifanc iachach yn y dyfodol.

Gweithiwn yn barhaus gyda chyflenwyr lleol a chynhyrchwyr lleol ac, yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, cynigiwn fwydlenni iach a maethlon yn cynnwys pryd o fwyd dau gwrs cytbwys bob dydd. Caiff bwydlenni eu cynllunio i gynnwys bwyd wedi'i goginio'n ffres a hyrwyddo amcanion bwyta'n iach yn cynnwys cynyddu ffibr a gostwng braster, siwgr a halen. Caiff yr holl brydau bwyd eu paratoi ar y safle yn defnyddio cynhwysion lleol, lle'n bosibl. Yn ychwanegol, rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddulliau coginio megis stemio a phobi mewn ffwrn i sicrhau y caiff maethion eu cadw a gwella mewn ansawdd a blas.

Caiff ein bwydlen ei redeg ar gylch 3-wythnos gyda ffocws cryf ar ffwrwythau, llysiau a salad ffres, gyda bwydlenni newydd yn cael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn. Trefnir nifer o ddyddiau thema drwy gydol y flwyddyn. Ceisiwn gynllunio'r rhain i adlewyrchu a chyfnerthu dysgu yn unol â phrosiectau y gall yr ysgolion fod yn eu hastudio.

Rydym yn hollol gynhwysol, yn darparu ar gyfer pob disgybl, yn cynnwys rhai gyda diet a ragnodwyd yn feddygol a'r rhai sy'n dewis diet arall am resymau moesegol/crefyddol. Os oes gan eich plentyn alergedd neu anoddefgarwch bwyd, bydd aelod o'r tîm arlwygo yn cwrdd gyda'r Dietegydd, y rhieni a'r cogydd i i drafod a threfnu dewisiadau prydau eraill.

Byddai'r dull ysgol gyfan yn cynnwys:

- Rhoi blaenoriaeth i fwyd maethlon yn cynnwys cynhwysion ansawdd uchel, ffres a heb eu prosesu
- Gwneud gwelliannau parhaus i fwydlenni fel bod disgyblion yn bwyta prydau iach a blasus
- Datblygu rhwydweithiau cyflenwi sy'n cynorthwyo cynhyrchwyr lleol i gyflenwi ysgolion lleol
- Meithrin ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol gynradd am bwysigrwydd diet iach, gan greu arferion da am byth
- Codi proffil bwyd a maeth o fewn y cwricwlwm

- Cynorthwyo staff arlwygo i gyflawni eu rôl fel "gweithwyr iechyd modd arall"
- Ei gwneud yn rhwyddach i staff addysgu i wneud dysgu am faeth yn "hwyl" a chynnwys rhieni a llywodraethwyr ysgolion yn y broses

Dangosir enghraifft o fwydlen islaw. Dylid nodi y gellir darparu ar gyfer gofynion dietegol arbennig.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Arlwygo Ysgol ar **01633 644156**

WYTHNOS 1	PRIF GYRSIAU	DEWIS LLYSIEUOL	DEWIS ARALL	PWIDINAU
DYDD LLUN	WYTHNOS YN CYCHWYN: 05/09/2022 - 24/09/2022 • 17/10/2022 • 14/11/2022 • 05/12/2022 • 09/01/2023 • 27/02/2023 • 20/03/2023 Pisau Hwalladaidd gyda Lletnau, Catef neu Pasta Fia Pob neu Bys	Pisau Caws a Tomato gyda Lletnau Catef neu Pasta Fia Pob neu Bys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada 27/02/2023 • 20/03/2023	Talen Cigol Sogled a Gwyddol a Lloeth
DYDD MAWRTH	Parfa Bolognese catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Parfa Bolognese Lysieuol catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Cymyl Alaf Taff a Chwistad
DYDD WEDNESD	Twci Rhod gyda Swffin Catef, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Fia Gwyddol a Grefi	Quorn mewn Grefi, Swffin Catef, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Fia Gwyddol a Grefi	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Hufen iâ Blagad
DYDD IAU	Selig, Pwddin Swydd Efrog, Tates Potsh Pys a Grefi	Selig Morgannwg Catef, Pwddin Swydd Efrog, Tates Potsh, Pys a Grefi	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Stewt Jaffa a Chwistad
DYDD GWENER	Bwyddad Pryddad neu Ddeun Pryddad Eog gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Ffrata Caws a Tomato gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Tarten Ciesion Yd a Chwistad
WYTHNOS 2	PRIF GYRSIAU	DEWIS LLYSIEUOL	DEWIS ARALL	PWIDINAU
DYDD LLUN	WYTHNOS YN CYCHWYN: 12/09/2022 • 03/10/2022 • 24/10/2022 • 21/11/2022 • 12/12/2022 • 16/01/2023 • 04/02/2023 • 04/03/2023 • 27/03/2023 Pasta Caws a Thates gyda Bara Crydog, Fia Pob neu Bys	Pasta Tomato a Bawl gyda Bara Crydog a Phys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Stewt Mandarin
DYDD MAWRTH	Korma Cysw neu Korma a Chaws, Reis, gyda Bara Naon a Chwm Melys	Korma Llysiau a Reis gyda Bara Naon a Chwm Melys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Stewt Hydref a Chwistad
DYDD WEDNESD	Edion Rhod, Pwddin Swydd Efrog, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Broccoli a Grefi	Caws Brodresych a Broccoli pob, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Broccoli a Grefi	Jacket Potatoes with Various Fillings	Jell Ffrwythau a Hufen iâ
DYDD IAU	Carbonara Catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Carbonara Lysieuol Catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Tarten Jam a Chwistad
DYDD GWENER	Bwyddad Pryddad neu Ddeun Pryddad Eog gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Pob Llysiau gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Mwllin Sogled a Gwyddol a Lloeth
WYTHNOS 3	PRIF GYRSIAU	DEWIS LLYSIEUOL	DEWIS ARALL	PWIDINAU
DYDD LLUN	WYTHNOS YN CYCHWYN: 19/09/2022 • 10/10/2022 • 07/11/2022 • 28/11/2022 • 19/12/2022 • 23/01/2023 • 13/02/2023 • 13/03/2023 Mac a Chaws gyda Bara Crydog a Chwm Melys	Pasta Tomato a Bawl gyda Bara Crydog a Chwm Melys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Talen Fawr
DYDD MAWRTH	Lasagne Catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Lasagne Lysieuol Catef gyda Bara Catef a Llysiau Cymyng	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Cymyl Hydref a Chwistad
DYDD WEDNESD	Twci Rhod gyda Swffin Catef, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Fia Gwyddol a Grefi	Selig Morgannwg Catef, Swffin Catef, Tates Rhod a Thates wedi Berw Maron, Fia Gwyddol a Grefi	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Pwddin Reis a Ffrwythau
DYDD IAU	Pell Cig mewn Sawi Tomato gyda Pasta a Phys	Pell Lysieuol mewn Sawi Tomato gyda Pasta a Phys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Talen Sogled Trwchus
DYDD GWENER	Ffrid Eog mewn Cysw neu Ffridad Pryddad gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Pob Llysiau gyda dewis o Sgildion/Pasta neu Tates Potsh, Fia Pob neu Bys	Talen yn ei Chroen gyda Gwahanol Llewada	Tarten Daff a Gwyddol a Lloeth

Cydymffurfio gyda rheoliadau Bwyta'n iach mewn Ysgol

Mae iechyd a lles ein plant yn hollbwysig i ni. Oherwydd hynny, rydym wedi creu amrywiaeth o brydau ysgol sy'n cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys amrywiaeth o brydau sy'n cynnwys cig moch a dofednod, pysgod seimllyd cyfoethog mewn mega-3, reis a phasta. Caiff yr holl fwyd a diod yn ein hysgolion cynradd eu dadansoddi i gydymffurfio gyda Rheoliadau Bwyta'n iach mewn Ysgolion (Safonau a Rheoliadau Maeth) a chafodd y dadansoddiad hwn ei wirio'n allanol fel bod yn cydymffurfio.

Costau Prydau Ysgol

Dyma'r prisiau pryd bwyd cyfredol (fel ym mis Medi 2019):

Babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) – O fis Medi 2022 – bydd Cinio Ysgol Am Ddim Cyffredinol ar gael i bob disgybl.

Plant Iau O fis Medi 2023 bydd Cinio Ysgol Am Ddim ar gael i bob disgybl.

Dylid talu am brydau yn uniongyrchol i'r ysgol yn wythnosol neu bob tymor ymlaen llaw. Yn unol â chyfarwyddiadau ariannol yr Awdurdod ni ellir rhoi mwy na 5 pryd ar gredyd i unrhyw ddisgybl, a bydd eu rhieni'n derbyn llythrau yn eu hysbysu am unrhyw arian sy'n ddyledus. Unwaith y bydd y credyd hwn wedi'i dramgwyddo, bydd yn ofynnol i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i ddarparu pryd o fwyd amser cinio i'w plentyn nes bod lefelau'r ddyled wedi'u clirio.

Prydau Ysgol Rhad ac am Ddim

Pwy sy'n gymwys?

Bydd disgyblion yn gymwys os bydd rhieni / gofalwyr yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceiswyr Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth dan Ran VI Deddf Lloches a Mewnfudo 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes hawl ganddynt i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw incwm blyneddol y cartref (yn ôl asesiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) yn fwy na £16,190
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- Estyniad Credyd Treth Gwaith - y taliad y gallai rhywun ei dderbyn am bedair wythnos arall pan yw'n peidio â bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol - gydag enillion blyneddol o lai na £7,400, neu £616.67 y mis.

Nid oes angen i rieni/gofalwyr mwyach roi dogfennau cefnogi i ddilysu eu hawl i fudd-dal os ydynt eisoes yn derbyn budd-dal. Y cyfan sydd angen i chi fel rhiant/gofalwr ei wneud yw llenwi a dychwelyd ffurflen gais am brydau ysgol am ddim i'n galluogi i ddilysu eich hawl am fudd-dal. DS Gofynnir i chi roi tystiolaeth o'ch enillion gyda'ch cais os nad oes gennych hawl i fudd-dal.

Bydd gan blant sy'n derbyn gofal yn Sir Fynwy hawl i bryd ysgol am ddim unwaith y cafwyd cadarnhad gan Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnir i chi beidio cysylltu â'r Cyd-wasanaeth Budd-dal i wneud ymholiadau gan nad ydynt yn gyfrifol am asesu'r hawliad.

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw gwneud cais am brydau ysgol am ddim bob blwyddyn academaidd. Ni all ysgolion roi pryd am ddim i'ch plentyn nes y cafodd cais ei awdurdodi gan y Cyd-wasanaeth Budd-daliadau yn Nhorfaen.

01495742377 neu **benefits@torfaen.gov.uk**

Mae modd gwneud ceisiadau drwy'r ddolen isod:

[Free School Meals / School Essentials Grant #17604091 | Eligibility Criteria](#)

Pas cyfleusterau hamdden am ddim

Bydd y disgyblion hynny a gafodd eu hasesu a'u hawdurdodi am brydau ysgol am ddim hefyd yn gymwys i ddefnyddio pyllau nofio a rhai gweithgareddau hamdden eraill am ddim o fewn Canolfannau Hamdden Sir Fynwy. Caiff eich manylion eu rhannu gyda'r tîm Gwasanaethau Hamdden a fydd yn awtomatig yn gweithredu pas Hamdden Am Ddim yn dilyn cymeradwyo hawl eich plentyn i brydau ysgol am ddim. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â **01633 644791**.

GRANT HANFODION YSGOLION

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno grant newydd i gynorthwyo teuluoedd ar incwm isel ar gyfer prynu:

- Gwisg ysgol yn cynnwys cotiau ac esgidiau;
- Cit chwaraeon ysgol yn cynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau ymgyfoethogi, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i sgowtiaid, geidiau, cadetiaid, crefftau ymladd, chwaraeon, celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer e.e. bagiau ysgol a deunyddiau ysgrifennu;
- Offer arbenigol lle mae gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau tebyg i ddylunio thechnoleg; ac
- Offer ar gyfer tripiau tu allan i oriau ysgol tebyg i ddysgu awyr agored e.e. dillad sy'n dal dŵr.
- Rhai pryniannau eraill gan gynnwys mewn perthynas â gweithgareddau cyfoethogi, offer arbenigol ac offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau.

Mae'r cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

O'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11 ym mis Medi 2024.

Darperir cyllid o £125 ar gyfer pob disgybl cymwys o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 a Blwyddyn 8 i flwyddyn 11. Mae'r cyllid yn £200 ar gyfer y disgyblion hynny ym Mlwyddyn 7. Caiff hawl ei asesu'n awtomatig wrth ochr eich cais am bryd ysgol am ddim.

